

Pawb gyda'i Gilydd!

Awgrymiadau ar gyfer gweithredu o
Weithdai'r Flwyddyn Newydd ar Lesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol
2018



1. Rhagair

Roeddwn wrth fy modd yn ôl ym mis Ionawr eleni, i weld â'm llygaid fy hun frwdfrydedd uwch gydweithwyr o'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru wrth iddynt fynd ati ar y cyd i archwilio potensial trawsnewidiol ein deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r dyfnder meddwl a'r cyfoeth o syniadau a ddeilliodd o'r ymdrech hon ar y cyd wedi darparu adnodd defnyddiol tu hwnt ar ein cyfer ni i gyd, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol a syniadau ymarferol o ran sut i ddangos yn fwy eglur y camau cadarnhaol yr ydym yn eu cymryd, wrth inni eu cymryd. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi bod o gymorth i feithrin dealltwriaeth fwy cyffredin am oblygiadau a heriau'r deddfwriaeth. Mae'r heriau hyn yn heriau inni i gyd a bydd yr ysbryd cydgynhyrchiol a ddangoswyd wrth eu harchwilio yn y gweithdai hyn yn rhan bwysig o'r ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â hwy.

Hoffwn annog fy holl gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r adroddiad hwn i'w helpu i ddeall y lluo o ffyrdd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio ac i ddeall beth yw'r disgwiliadau ohonom. Mae'r Ddeddf wedi cael ei disgrifio'n aml fel fframwaith "synnwyr cyffredin"; yn sicr mae a wnelo â llywodraethu da, ysgogi'r math o newidiadau datblygiadol yr ydym ni i gyd yn cydnabod bod eu hangen er mwyn inni fynd ati'n llwyddiannus i gyflawni "Ffyniant i Bawb" a rhaglenni'r Llywodraeth yn y dyfodol.

Er bod rhai o'r newidiadau datblygol hynny eisoes wedi dechrau, ni fydd yr un ohonynt yn hawdd – bydd arweinyddiaeth benderfynol, wedi'i chydgysylltu'n dda, yn hanfodol i'w cyflawni. Rydym ni, yn Llywodraeth Cymru, yn gweld y math hwnnw o arweinyddiaeth yn dod i'r amlwg trwy ein gwaith *Dyfodol, Ymgysylltu, Cyflawni* ac rwy'n edrych ymlaen at weld rheolwyr ym mhob rhan o'r sefydliad yn derbyn yr awgrymiadau pwysig yn yr adroddiad hwn ac yn eu rhoi ar waith go iawn.

Un neges arbennig o gryf yn y tudalennau a ganlyn yw bod yn rhaid i ni, yn y sector cyhoeddus, ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys pobl yng nghamau cyntaf prosesau datblygu polisi a chynllunio ar gyfer cyflawni. Mae'n hanfodol buddsoddi amser ac ymdrech i gynnwys ar adeg gynnar, mynd ati ar y cyd i ddatblygu naratifau eglur a chynnal deialog barhaus. Byddant yn bwysig o ran helpu i atal amser ac adnoddau rhag cael eu gwastraffu mewn penderfyniadau diweddarach ynghylch materion dadleuol; ond rhywbeth sy'n llawer pwysicach yw'r gyd-ymdrech gadarnhaol y bydd gwneud y pethau hyn yn dda yn ei meithrin ledled Cymru, wrth inni weithio i sicrhau llesiant pobl, heddiw ac ymhell i'r dyfodol.

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol,
Llywodraeth Cymru

2. Diben y gweithdai a'r adroddiad

Yn haf 2017, cynhaliwyd cyfarfod rhwng uwch gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a WWF Cymru i drafod ymchwil ddiweddar WWF i'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran cymhwyso deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn y cyfarfod roedd pawb yn cydnabod bod angen gwaith cydweithredol, manylach rhwng uwch swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac uwch gynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector. Diben yr ymarfer hwn fyddai meithrin dealltwriaeth gyffredin am y modd y gall cynnydd adnabyddadwy gan Lywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Ddeddf gael ei gyflawni a'i ddangos yn glir. Roedd wedi'i fwriadu i gynnwys mynd ati ar y cyd i archwilio'r camau ar gyfer gwella a gosod y sylfeini ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid y trydydd sector mewn modd mwy effeithiol a chynhyrchiol yn y dyfodol.

Yn ystod gweddill y flwyddyn, bu cydweithwyr o Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru a WWF yn cydweithio i lunio cyfres o dri gweithdy cynyddrannol a fyddai'n cael eu cynnal yn y Flwyddyn Newydd yn 2018. Fe gyfunon nhw ar y manylion canlynol:

Y diben ar y cyfan fyddai: datblygu dealltwriaeth gyffredin am y modd y gall cynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei weld, ei ddeall a'i gydnabod gan rhanddeiliaid y trydydd sector. Byddai'r gweithdai hyn yn cynnwys:

- archwilio ymatebion Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf, gan gynnwys newidiadau presennol ac arfaethedig a achosir
- archwilio disgwyliadau rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol
- mynd ati ar y cyd i lunio dulliau effeithiol i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd adnabyddadwy dan y Ddeddf.

Y tri gweithdy cynyddrannol y cytunwyd arnynt yn y pen draw oedd:

1. Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso – sut i ddangos cynnydd.
2. Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'.
3. Rhoi'r Ddeddf ar waith...! Astudiaeth fanwl mewn maes sy'n cael effaith fawr: "Aer Glân i Gymru".

Erbyn diwedd y tri gweithdy roeddem yn amcanu at gyflawni'r canlynol:

- dealltwriaeth well rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid am safbwyntiau ynglŷn â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phrofiadau o wneud hynny
- dealltwriaeth am y disgwyliadau ar gyfer cyflawni effeithiol ar lefelau'r "Llywodraeth gyfan" a rhaglenni/prosiectau
- meysydd yr adnabuwyd arfer da ynddynt a meysydd ar gyfer newid
- camau nesaf y cytunwyd arnynt mewn meysydd ar gyfer gwella.

Sefydlwyd **tair egwyddor bwysig** i lywio'r ffordd y byddai'r gweithdai'n cael eu cynnal:

- Ymrwymiad ar y cyd i ddiben cyffredin deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Diddordeb ym mhob safbwynt, gan fod â meddwl agored a dangos parch.
- Ysbryd hyblyg, creadigol a chydgyhyrchiol.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y trafodaethau a'r awgrymiadau ar gyfer gweithredu o gyflwyniadau a thrafodaethau ym mhob un o'r tri gweithdy. Ni all dyfnder a chyfoeth y trafodaethau o amgylch byrddau gael eu cyfleu'n llawn, felly mae'r adroddiad yn ceisio'u cyflwyno mewn ffordd sy'n dilyn themâu'r gweithdai mewn ffordd hygyrch.

Llywodraeth Cymru yw'r brif gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad hwn, gan mai hi yw'r prif gyfrwng ar gyfer y newidiadau a drafodwyd yn y gweithdai. Drwy'r adroddiad, rydym wedi cyfeirio at gyfraniad y trydydd sector at weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus ac wedi anelu at sicrhau bod yr adroddiad yn cynrychioli'r farn a fynegwyd yn ogystal â hybu ymwneud parhaus gan y trydydd sector yn y dyfodol.

Roedd gwerth cynhenid yn y cyfnewidiadau yn y gweithdai o ran datblygiad cyfranogwyr eu hunain ac fe rannodd llawer o gyfranogwyr faint o fudd oeddent wedi'i gael o fod yn bresennol a sut y byddent yn defnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn eu gwaith unigol a'u sefydliadau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyfranogwyr am eu cyfraniad i'r gweithdai sydd wedi'i gwneud yn bosibl casglu awgrymiadau pwysig ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol.

Mae WWF Cymru a swyddogion o Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru wedi cydweithio i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

3. Themâu'r gweithdai a'r prif negeseuon o'r trafodaethau

3.1 Themâu'r gweithdai

Rhoddodd y gweithdai hyn ystyriaeth i ddwy agwedd gydymddibynnol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- cyflawni effeithiau cadarnhaol ar draws y saith nod Llesiant trwy waith **adrannau polisi** a'r modd y maent yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio

a

- gwaith **timau corfforaethol** canolog i gefnogi'r broses gyflawni honno, trwy systemau a phrosesau 'peirianwaith y Llywodraeth' sy'n galluogi ac yn sicrhau gwaith da o ran datblygu a gweithredu polisïau.

Roedd y trafodaethau yn y gweithdai'n canolbwyntio'n gryf ar sut orau i wneud a dangos cynnydd yn y ddwy agwedd hon.

Cafwyd trafodaeth am yr hyn a ddisgrifiwyd fel **diffyg gwelededd** newid a chynnydd yn ymatebion adrannau polisi i ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac **anghysondeb** yn ôl pob golwg o ran sut y mae'n cael ei chymhwyso wrth ddatblygu polisïau a chynllunio ar gyfer cyflawni.

O ran gwaith cymorth corfforaethol timau canolog, fe ganolbwyntiodd y grwpiau trafod ar yr angen am **ymateb 'Llywodraeth gyfan'**: sy'n gofyn am ymdrech parhaus trwy arweinyddiaeth gref a rheolaeth wedi'i chydgyssylltu'n dda ar ddatblygiadau hollbwysig yn y canlynol:

- prosesau polisi, megis asesu'r effeithiau
- offer cyflawni, megis caffael
- meithrin dealltwriaeth a medrusrwydd timau yn y dulliau newydd, megis ystyried tueddiadau yn y dyfodol
- mynd i'r afael â rhai o'r newidiadau anodd sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, megis sut i gyflawni integreiddio cryfach rhwng polisïau a chydweithio effeithiol rhwng adrannau a phortffolios y Cabinet; sut i fynd ati'n well i gynnwys pobl y mae polisïau'n effeithio arnynt a chydweithio'n well gyda sefydliadau rhanddeiliaid; sut i gynnal ffocws a pharhad ymdrech mewn meysydd lle mae'n anorfod bod cynnydd tuag at ganlyniadau'n estyn y tu hwnt i dymhorau Llywodraeth; sut i alluogi newid tuag at waith atal sylfaenol mewn dulliau polisi.

Yn eu trafodaethau am y rhain a heriau eraill, ceisiodd y grwpiau yn y gweithdai awgrymu ffordd o fynd i'r afael â hwy. Mae rhai negeseuon a datrysiadau posibl yn ymwneud ag agweddau ar waith datblygu polisïau ei hun a rhai o'r systemau, prosesau a mecanweithiau cymorth sy'n ei alluogi; ond roedd y gweithdai'n glir y bydd sefydlu'r trawsnewidiadau a'r newidiadau diwylliannol y mae eu hangen yn galw am arweinyddiaeth ymrwymedig a phenderfynol dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r negeseuon allweddol o'r tri gweithdy, o safbwynt Llywodraeth Cymru fel cynulleidfda; caiff ffrwyth ein trafodaethau ei gyflwyno'n fwy manwl yn adran 4: Y trafodaethau yn y gweithdai: heriau, pwyntiau dysgu ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu.

3.2 Dealltwriaeth am ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – rhai awgrymiadau pwysig o'r gweithdai

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff cyhoeddus eraill a rwymir gan y Ddeddf, weithredu mewn modd sy'n ceisio 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. Dylid cadw'r egwyddor hon yn gadarn mewn cof wrth inni gymhwyso'r pum ffordd o weithio; dyna yw eu diben.

Mae sylw i'r tymor hir yn ganolog i ddeddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol – dylai ystyriaethau tymor hir fod yn fwy nag oes cenedlaethau presennol; dylent gwmpasu oes y rhai nad ydynt wedi'u geni eto.

Er y gallai rhai ystyried bod canolbwyntio a chynllunio ar gyfer cyflawni y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol ac ariannol yn her yn y cyd-destun hwn, gellid ystyried mewn gwirionedd ei fod yn agwedd hanfodol ar gymorth i weinidogion. Mae'n bosibl bod rheoli gweithgarwch hirsefydlog mewn modd ymaddasol yn allweddol i hyn, gydag eglurder dros ddiben a rhesymeg hirdymor, a thracio cynnydd gan ddangos tystiolaeth dda.

Mae'r pum ffordd o weithio wedi'u cydgyssylltu â'i gilydd mewn llawer o ffyrdd: er enghraifft, mae meddwl am y tymor hir yn hanfodol ar gyfer atal effeithiol; gellir gwneud gwaith atal yn fwy effeithiol trwy fesurau sydd wedi'u hintegreiddio'n dda a phan fo mater yn cael ei ddeall yn iawn trwy gynnwys y bobl y mae'n effeithio arnynt; mae gweithredu mewn modd integredig yn golygu bod angen cydweithio cryf gydag adrannau a sefydliadau eraill er mwyn iddo fod yn wirioneddol effeithiol.

Polisi Integredig i gyflawni ar draws y saith nod llesiant

Nodau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhannu gyda'r cyrff cyhoeddus eraill a rwymir gan y Ddeddf yw'r saith nod; maent wedi'u cydgyssylltu'n glir ac ni ellir anwybyddu'r un ohonynt er mwyn ffafrio un o'r rhai eraill yn unig. Mae'r Rhaglen Lywodraeth bresennol, "Ffyniant i Bawb", yn nodi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ei hun i ategu'r nodau llesiant cyffredin.

Mae'r nodau llesiant yn "weladwy" iawn ac wedi hen ymsefydlu ym meddyliau rhanddeiliaid allanol; mae angen i gyfraniadau Llywodraeth Cymru atynt fod yn "weladwy" hefyd a chael eu deall felly. Bydd polisiâu a ddatblygir a champau gweithredu a gymerir i gyflawni'r amcanion llesiant a chyfrannu at y nodau llesiant yn cael eu deall a'u cefnogi'n well gan bobl os doir o hyd i ffyrdd newydd o feithrin deialog barhaus, sy'n cynnwys pobl yr effeithir arnynt ac yn ei gwneud yn bosibl cydweithio â sefydliadau rhanddeiliaid.

3.3 Polisi a chyflawni integredig – cyngor i weinidogion sy'n gyson â deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae integreiddio'n ganolog i brosesau da ar gyfer llunio polisiâu; mae'n dwyn manteision lluosog ar draws y nodau llesiant ac mae'n debygol y byd angen llai o bolisiâu pan ydynt yn cael eu creu mewn ffyrdd gwell, mwy integredig. Mae "Ffyniant i Bawb" yn ei gwneud yn ofynnol i bolisiâu, cynlluniau a phrosesau cyflawni Llywodraeth Cymru dan y Rhaglen Lywodraethu fod wedi'u hintegreiddio'n dda; felly mae angen i weinidogion gael cyngor a ddatblygir ar ôl meddwl yn ofalus ac sy'n seiliedig ar resymeg gadarn ynghylch cyfleoedd ar gyfer gweithredu integredig a chydweithio.

Bydd **asesiadau integredig o'r effeithiau**, a gwblheir yn gyson â'r dull newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ffordd bwysig o adnabod cyfleoedd o'r fath a'u hegluro'n glir wrth weinidogion.

Er mwyn iddo gael ei wneud yn dda, mae asesiad integredig o'r effeithiau'n galw am gynnwys pobl y mae polisi'n effeithio arnynt a chydweithio gyda sefydliadau sydd â buddiant ynddo a/neu sy'n gallu cyfrannu at ei gyflawni. Mae angen iddo gael ei ailadrodd ar adegau trwy gydol y cylch datblygu a chyflawni polisi; nid ymarfer ar un adeg mewn amser ydyw.

Mae **datblygu naratif clir**, gan "ddangos ein dull o weithio" wrth i bolisi a chynlluniau gael eu datblygu, yn hanfodol ar gyfer tryloywder ac i gynnal deialog barhaus gyda dinasyddion a sefydliadau rhanddeiliaid. Mae hefyd yn dystiolaeth y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn chwilio amdani yn ei hasesiad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio.

Fe wnaeth y gweithdai fathu'r term "prosesau penderfynu blwch du" i fynegi pryder ei bod yn aml yn wir nad yw'r modd y cafodd polisi ei ddatblygu'n weladwy. Mae adroddiadau ar benderfyniadau'n un dull, mwy ffurfiol, y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i wneud pobl yn ymwybodol o ddatblygiadau, ond bydd angen naratif llawer ehangach i ddangos sut y meddylwyd am yr egwyddor datblygu cynaliadwy, sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso a pha effeithiau a manteision lluosog fydd ar draws y saith nod. Bydd cynhyrchu naratif eglur, y gellir ei wirio yn y ffordd yma, yn hytrach na "thicio blychau", yn galw am ymdrech parhaus i newid diwylliant ar draws Llywodraeth Cymru, a bydd angen arweinyddiaeth gref ar gyfer hynny.

Bydd cynnwys a chydweithio'n helpu i sicrhau'r tryloywder a'r naratif clir y mae eu hangen i atal y profiad o "prosesau penderfynu blwch du" ac osgoi cyfnewidiadau negyddol diangen sy'n mynd â llawer o amser i weinidogion ar adeg ddiweddarach. Mae'n debygol y bydd y ffordd hon o weithio'n golygu ei bod yn ofynnol rhoi diweddiadau mwy rheolaidd a llai ffurfiol i weinidogion a fydd, yn ei dro, yn gwneud yr angen i newid cwrs yng ngoleuni pethau a ddysgwyd trwy ymgysylltu ehangach yn syniad sy'n peri llai o 'ofid'.

Er mwyn helpu i oresgyn yr anhawster gyda dangos cynnydd tuag at y tymor hir, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ati'n well i adnabod a disgrifio mesurau trosiannol o gynnydd. Wedyn bydd gweinidogion yn gallu rhoi cyfrif da o'r gwahaniaethau y maent yn eu gwneud gan fod â llygad ar gyflawni canlyniadau mwy hirdymor y tu hwnt i'w cyfnod yn y swydd.

Bydd gwaith ar gerrig milltir yn bwysig iawn i ddarparu ffrâm ar gyfer graddfa a chyflymder newid yn erbyn y nodau ac i ystyried y mesurau trosiannol y mae eu hangen.

3.4 Rheoli gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol – ymateb systemig, 'Llywodraeth gyfan' i'r Ddeddf

Mae 'dull Llywodraeth gyfan' o weithredu deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu dull corfforaethol integredig ar draws gweithrediadau swyddogaethol Llywodraeth Cymru: llywodraethu blaengar mewn perthynas â phethau megis ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys; perthnasoedd â rhanddeiliaid; datblygu galluoedd staff; sgiliau a phrosesau llunio polisiâu; cynllunio busnes, rheolaeth ariannol, caffael a chyllid; asesu effeithiau, eu monitro a'u gwerthuso ac adrodd arnynt. Mae angen newidiadau yn yr holl feysydd hyn er mwyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei gweithredu'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ail weithdy yn y gyfres hon yn rhoi sylw penodol i bedair elfen allweddol ym "mecanwaith y Llywodraeth", lle bydd newid datblygiadol yn hollbwysig i weithredu a chymhwyso deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithiol. **Y meysydd a archwiliwyd oedd: Asesu'r Effeithiau; Integreiddio Polisi; Caffael a Chapasiti a Medrusrwydd.**

Ym mhob un o'r agweddau hyn, y farn oedd bod **newid mewn diwylliant a datblygiadau newydd mewn systemau a phrosesau** o'r pwys mwyaf. Fe wnaed y sylw gan un grŵp trafod nad yw'r naill na'r llall o'r pethau hanfodol hyn yn gweithio oni bai eu bod yn cael eu rheoli "ar y cyd" â'i gilydd; felly bydd angen arweinyddiaeth a rheolaeth benderfynol, wedi'i hintegreiddio'n dda.

Dywedwyd llawer hefyd am y mathau o sgiliau a medrusrwydd y bydd angen i staff, ynghyd â'u rhanddeiliaid a phartneriaid allanol, eu datblygu: sgiliau i gynnwys pobl a chydweithio, i gynnal asesiadau integredig, cyflawn o effeithiau ac i gyfleu gwaith datblygu polisi a chamau cyflawni gan feddwl drwy naratif da, y gellir ei wirio. Bydd pob maes gwaith yn *Rhaglen Diogelu at y Dyfodol* Llywodraeth Cymru yn helpu i symud Llywodraeth Cymru tuag at fedrusrwydd yn y meysydd hollbwysig hyn.

Cydnabuwyd fod y **trydydd sector yn gallu dwyn gwerth i ddatblygiad ymateb Llywodraeth gyfan** i'r Ddeddf, efallai trwy fod yn rhan o grŵp cynghori corfforaethol. Efallai y gellir dod o hyd i syniadau ynglŷn â sut y gallai trefniant o'r fath weithio trwy fwrw golwg ar enghreifftiau da o wledydd a rhanbarthau eraill; sut bynnag, byddai angen darparu adnoddau priodol ar gyfer ymwneud parhaus o'r math yma gan rhanddeiliaid.

Bydd angen dod o hyd i amrywiaeth o ffyrdd newydd o ddatblygu deialog agored, dysgu oddi wrth ddinasyddion a rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn gwaith i gynnal asesiad integredig o'r effeithiau; fodd bynnag, er mwyn i'r ffordd newydd hon o weithio fod yn un sy'n para, bydd angen adnoddau a medrusrwydd ar y ddwy ochr.

Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn gwneud gwaith caffael yn anfon negeseuon eglur iawn at yr holl sectorau a rhanddeiliaid; felly mae cyflymder a gwelededd newid sy'n gysylltiedig â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym maes caffael yn eithriadol o bwysig.

Mae angen system ym maes caffael i "bennu gwerth" manteision lluosog ar draws y nodau llesiant – un sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas yr hen "Offeryn Manteision Cymunedol". Roedd pryderon yn y trafodaethau yn y gweithdai ynghylch hyn nad yw lefel bresennol y ffocws ar fanteision economaidd a chymunedol yn ei gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau amgylcheddol a byd-eang ehangach.

Un agwedd graidd ar yr holl ddatblygiadau hyn fydd y gallu i ddangos sut y maent yn dod yn eu blaenau – "profi ein bod yn gwella".

3.5 Profi ein bod yn gwella – cynnydd o ran datblygiad corfforaethol Llywodraeth Cymru

Bydd a wnelo hyn i raddau helaeth â thryloywder systemau a phrosesau, yn ogystal â sut y gwelir ac y teimlir bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu; felly, eto, bydd cynnwys rhanddeiliaid mewn deialog agored gynnar a pharhaus yn hollbwysig. Nid yw prosesau penderfynu, gan gynnwys asesu effeithiau, arfarnu opsiynau a chynghor i weinidogion, yn cael eu deall yn eang y tu allan i'r Llywodraeth.

Heblaw am gaffael a gweinyddu grantiau, y mae gan sefydliadau'r trydydd sector fwy o brofiad ohonynt, a'r broses datblygu polisi mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt, mae llawer o sefydliadau'n teimlo nad oes ganddynt rhyw lawer o ddealltwriaeth neu nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth am weddill "peirianwaith", systemau a phrosesau'r Llywodraeth. **Byddai gwybodaeth sydd ar gael yn rhwyddach o gymorth i ddangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a sut y mae'n rheoli'r newidiadau y mae eu hangen i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd fwyaf effeithiol.**

Rhoddwyd llawer o bwyslais mewn trafodaethau ar yr angen i gynnwys pobl a cheisio cydweithio gyda phartïon sydd â buddiant ar yr adegau cynnar wrth lunio datblygiadau polisi neu gynlluniau cyflawni. Bydd cofnodi cyfnewidiadau mor bwysig yn eglur ar ffurf naratif yn darparu'r dystiolaeth y mae ei hangen i ddangos eu bod wedi bod yn effeithiol ac yn ddefnyddiol. Pan na wneir hynny, gall ddod yn amlwg yn fuan iawn yn ymatebion rhanddeiliaid yn ddiweddarach. Gall arolygon am sawl agwedd ar weithrediadau'r Llywodraeth fod yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer cynnydd a gellid eu defnyddio'n fwy eang.

Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o bethau megis grwpiau cyfeirio/cynghori sy'n cynrychioli'r gymdeithas sifil, gyda'r potensial i rywbeth o'r math hwnnw ennyn ymgysylltiad a helpu i fonitro cynnydd ar lefel gorfforaethol.

Yn olaf, awgrymwyd fod **Adrodd yn Flynyddol yn gyfrwng pwysig iawn ar gyfer dangos cynnydd**, nid dim ond o ran effeithiau ar draws y nodau llesiant trwy gyflawni'r amcanion llesiant yn "Ffyniant i Bawb", ond hefyd o ran newidiadau a gwelliannau a wneir ym mecanweithiau'r Llywodraeth a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith. Gallai hyn gynnwys pob agwedd ar lywodraethu o ddatblygiad staff a rheoli cyfathrebiadau i ddefnydd blaengar o gaffael a rheoli asedau cyhoeddus gan gynnwys ystâd y Llywodraeth.

3.6 Dwyn effaith gadarnhaol ar draws y saith nod llesiant

Mae angen i waith i gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn "Ffyniant i Bawb" a chydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ategu'r Nodau Llesiant gael ei wneud bob amser yng nghyd-destun **yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gydag effeithiau ar genedlaethau'r dyfodol yn cael sylw pendant.**

Mae angen i effaith gael ei hystyried yn briodol ar draws yr holl nodau a lle nad yw nodau'n cael eu deall yn dda gan rai timau polisi, e.e. Nodau 2 a 7 (Cymru Gydnerth a Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang), bydd angen mwy o ryngweithio a hyfforddiant yn y meysydd hynny. Lle mae dealltwriaeth yn wael, bydd timau'n ei chael yn anodd rhoi cyfrif eglur a chredadwy o gyfraniadau cadarnhaol tuag atynt, a gallant gyflawni effeithiau negyddol heb sylweddoli. Wrth i dimau polisi ryngweithio'n fwy â'i gilydd yn eu hymdrechion i integreiddio, y gobaith yw y bydd lefelau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn cynyddu ac yn lledaenu. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i welliant ddigwydd yn gyflym, gall fod angen cychwyn peth hyfforddiant ar draws y sefydliad.

Bydd cynnwys sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig y rhai â diddordebau arbennig mewn meysydd penodol, yn dod â chyfraniadau defnyddiol a phwysig ac yn sicrhau asesiad trylwyr o'r effeithiau.

Er nad oes un "ateb cywir" wrth geisio cynyddu i'r eithaf y cyfraniadau cadarnhaol ar draws y saith nod ac osgoi effeithiau negyddol, yn aml gellir gwireddu ystod eang o fanteision lluosog trwy'r ffordd y caiff polisiâu eu datblygu neu y caiff cynlluniau cyflawni eu gweithredu. Y cwestiynau allweddol y dylid eu gofyn yw: "a yw eich dewisiadau polisi'n cynyddu i'r eithaf y manteision lluosog y gallant eu dwyn?" "A ydynt wedi asesu'r effeithiau'n briodol?"

Bydd cynnwys pobl a chydweithio'n eang ar adeg gynnar wrth ddatblygu polisi wastad yn helpu i gynyddu'r effaith ar draws y nodau i'r eithaf. Mae disgrifio'r manteision hyn mewn naratif sy'n hawdd i'w ddeall ac y gellir ei wirio'n ffordd bwysig o ddangos bod deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei dilyn yn weithredol.

Cafwyd cryn dipyn o drafodaeth yn y gweithdai am gysyniad “mesur” effaith a galwyd am **fwrw golwg o’r newydd ar ein defnydd o ddata a mathau eraill o dystiolaeth** i ddangos cynnydd yng nghyfraniadau Llywodraeth Cymru tuag at y nodau.

Er mwyn helpu i oresgyn yr anhawster gyda dangos cynnydd tuag at ganlyniadau yn y tymor hir, **yn enwedig mewn meysydd lle mae’r newid yn digwydd yn araf megis y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth**, bydd angen adnabod a defnyddio mesurau trosiannol i alluogi swyddogion a’u gweinidogion i ddangos y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at ganlyniadau sydd ymhell y tu hwnt i dymor Llywodraeth. Crybwyllwyd fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn bwysig yn y cyd-destun hwnnw.

Bydd cysondeb negeseuon dros gyfnod bwriadol yn bwysig, gyda fframiau amser hirdymor ar gyfer adrodd a, hyd y gellir, cynllunio’r gyllideb “mewn egwyddor” o leiaf.

Nid yw graddfa a chyflymder y newid a ddisgwyllir mewn perthynas â’r nodau a’r dangosyddion yn glir i bobl. **Bydd cerrig milltir yn bwysig iawn** o ran helpu i fynd i’r afael â hyn ac mae angen i’r gwaith i’w datblygu symud ymlaen yn gyflym gyda rhanddeiliaid allanol yn cael eu cynnwys yn llawn.

3.7 Cyflawni’r newidiadau – rhai pethau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud nesaf

Mae gan Lywodraeth Cymru drefniadau sefydliadol o ran llywodraethu corfforaethol a fydd yn allweddol o ran derbyn awgrymiadau ar gyfer gweithredu o’r adroddiad hwn

Y prif gyfrwng ar gyfer tracio cynnydd o ran gweithredu a chymhwyso’r Ddeddf yw Grŵp Sicrwydd Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, sy’n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu, sy’n adrodd ar gynnydd wrth yr Ysgrifennydd Parhaol a’r Bwrdd.

Mae aelodau’r Grŵp Sicrwydd yn cwmpasu ystod eang o feysydd pwysig gan gynnwys: datblygu medrusrwydd, datblygiadau o ran tueddiadau’r dyfodol, cyfrifoldebau swyddfa’r cabinet (gan gynnwys datblygu cerrig milltir), dangosyddion a’r Adroddiad Llesiant, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gwerthuso, asesiadau integredig o’r effeithiau a datblygu/gweithredu polisi cyffredinol.

Bydd yr adroddiad hwn yn galluogi’r Grŵp i fynd ati’n well i drefnu’r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd trwy ei gynllun gwaith. Caiff rhai o’r meysydd allweddol ar gyfer gweithredu posibl y mae swyddogion sy’n drafftio’r adroddiad hwn wedi’u hadnabod eu rhestru isod:

- **Datblygu cynaliadwy a’r tymor hir**
 - Mae angen i gymorth ac arweiniad proffesiynol ynghylch polisi yn Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei ddefnyddio i fframio datblygiad polisi chynlluniau cyflawni,

bod sylw i'r tymor hir yn ganolog i'n gwaith i gymhwyso deddfwriaeth **Cenedlaethau'r Dyfodol** ac y dylai "cyfaddawdau" posibl rhwng y cenedlaethau wastad cael eu hadnabod a'u hystyried ar yr adegau cynharaf wrth ddatblygu polisi a'u hegluro yn y naratifau sy'n cefnogi prosesau penderfynu.

- Mae angen rhoi sylw i fylchau o ran sgiliau a diffyg diwylliannol yng ngallu pobl i feddwl am effeithiau hirdymor a'u hystyried.
 - Dylid meddwl a rhoi arweiniad **sut orau i gefnogi gweinidogion o ran yr angen am gynllunio a chyflawni sy'n ymestyn y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol ac ariannol**, gan sefydlu eglurder ynghylch diben a sail resymegol hirdymor a sut i ddangos tystiolaeth dda o dracio cynnydd.
 - Byddai gwaith i ddatblygu Atodiad wrth Lyfr Gwyrdd y Trysorlys ar gyfer Cymru, a hwnnw'n adlewyrchu deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael ei groesawu.
- **Atal**
 - Mae angen i'r gwaith sy'n mynd rhagddo rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector, i egluro a diffinio'r ffordd y dylem fod yn cymhwyso atal fel ffordd o weithio mewn polisi a gwaith cyflawni, gael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.
 - Wedyn mae angen iddo gael ei ledaenu'n eang o fewn Llywodraeth Cymru ac ymhlith rhanddeiliaid, i helpu pawb i weithio i sefydlu mwy o ddatrysiadau atal ar lefel sylfaenol i heriau hirdymor.
 - **Datblygu polisi a gwaith cyflawni mewn modd integredig – cydweithio mewnol ac allanol**
 - Mynd ati'n gyflym i gwblhau'r dull newydd o gynnal asesiadau integredig o'r effeithiau a rheoli'r broses lawn o'i weithredu a'i wreiddio fel y dull gofynnol wrth lunio pob polisi. Bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r newid yn y system ei hun ddigwydd ar y cyd â gwaith a arweinir ac a reolir yn gryf i ddatblygu medrusrwydd a newid agwedd ac ymddygiad ymhlith timau polisi a chyflawni ar draws Llywodraeth Cymru. Dylai'r defnydd o asesiadau integredig o'r effeithiau fod yn amlwg mewn cyngor i weinidogion ac mewn naratifau ac adroddiadau ar benderfyniadau.
 - Gan fabwysiadu dull 'dadansoddi systemau', **treialu, profi, rhannu canlyniadau ac adrodd ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd amser ystod o ryngweithiadau trawsadrannol** i ategu asesiadau integredig o'r effeithiau, a gwaith integredig i ddatblygu polisi a chynllunio ar gyfer cyflawni. Amcanu at sefydlu dull mwy cyson ac effeithiol o sicrhau integreiddio ar draws yr holl adrannau polisi, a'i wreiddio mewn system ac arfer.
 - **Archwilio'r syniad o sicrhau integreiddio gwell trwy ddyraniadau cyllidebau adrannol**, gan ei gwneud yn ofynnol creu cynlluniau integredig a chydweithredol na fyddent ond yn cael eu cyllido pan ddangosir tystiolaeth glir o waith polisi a chynllunio ar y cyd.

- **Cynnwys:**
 - **Mae angen rhagor o drafodaethau ynghylch llunio ar y cyd yn y dyfodol agos i adnabod, cynllunio, sefydlu ac egluro trefniadau newydd a mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer deialog barhaus rhwng rhanddeiliaid ar draws yr holl sectorau a Llywodraeth Cymru. Bydd angen trefniadau amser-effeithlon, sy'n cefnogi rhychwant eang o ran y rhai a gaiff eu cynnwys, ar bob lefel, o'r lefel strategol i feysydd penodol o ran datblygu polisïau.**
 - I alluogi'r tryloywder sy'n eisiau ym marn rhai rhanddeiliaid a mynd i'r afael â'r profiad 'blwch du', **mae angen ymdrech cyfathrebu i egluro'n well wrth ddinasyddion a sefydliadau rhanddeiliaid sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio.** Dim ond wedi i hyn gael ei wneud y bydd y newidiadau systemig blaengar y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ategu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlwg ac yn cael eu deall. Bydd hyn yn galw am ymdrech ar ran y 'canol corfforaethol' yn Llywodraeth Cymru.
- **Medrusrwydd:**
 - Trwy waith Llywodraeth Cymru o ran Diogelu at y Dyfodol, mae angen ymdrech ar y cyd gan arweinwyr a rheolwyr i wreiddio'r medrusrwydd a'r ymddygiadau sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol yn fwy dwfn a chyson.
 - Yn arbennig, bydd cynnydd yn dibynnu ar weithredu yn y meysydd canlynol:
 - dull wedi'i ailfywiogi o ran cymorth proffesiynol i lunio polisi er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n ymwybodol wrth ddatblygu polisi a cynllunio ar gyfer cyflawni
 - asesiadau integredig o'r effeithiau
 - meddwl am y tymor gwirioneddol hir, a defnyddio tueddiadau'r dyfodol wrth asesu effeithiau ac mewn agweddau eraill ar lunio polisi a chynllunio ar gyfer cyflawni
 - sgiliau ysgrifennu naratif tryloyw – “dangos ein dull o weithio”
 - dulliau effeithiol o gynnwys pobl a datblygu deialog barhaus
 - datblygu dull mwy blaengar o gymhwyso Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy arferion caffael, gydag achrediad cysylltiedig o bosibl.
 - Trwy ddull 'dysgu trwy wneud', sicrhau bod cymhwyso arfer gorau'n cael ei brofi a'i ledaenu'n eang mewn meysydd proffil uchel lle mae ymdrech trawsadrannol yn ofynnol, megis gwaith i ddatblygu a gweithredu **Cynllun Aer Glân i Gymru.**

- **Caffael:**
 - Adolygu fframweithiau a chontractau presennol i archwilio eu saernïaeth, sut y maent yn gweithredu a sut, wrth edrych tua'r dyfodol, y gellir eu haddasu i weithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well.
 - Datblygu system ym maes caffael ar gyfer “pennu gwerth” manteision lluosog ar draws y nodau llesiant – un sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas yr hen “Offeryn Manteision Cymunedol”, efallai trwy ddwyn ynghyd benaethiaid cyllid o'r holl gyrff cyhoeddus a rwymir gan ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio ac adolygu'r ffordd y caiff gwerth manteision lluosog ei bennu yn y broses gaffael.
- **Naw pwynt i staff Llywodraeth Cymru barhau i fod yn ymwybodol ohonynt, wedi'u cofnodi o'r gweithdai gan Gretel Leeb:**
 - Dylid wastad edrych tuag at allan ac ymlaen, 360 gradd o amgylch mater neu gynnig.
 - Rhoi sylw gofalus a chyson i'r tymor gwirioneddol hir ac i adroddiadau ar Dueddiadau'r Dyfodol.
 - Bod â diddordeb mewn meysydd polisi eraill a deall yr hyn sy'n digwydd ynddynt.
 - Osgoi meddwl a gweithredu mewn ffyrdd sy'n anhyblyg o linol a dilyniannol – mae'r byd a'i amgylchiadau'n newid yn barhaus o'ch cwmpas chi a'ch amcanion – datblygwch grefft rheolaeth ymaddasol a arweinir gan wybodaeth a daliwch ati i drafod newidiadau gyda'r bobl y maent yn effeithio arnynt a chyda'ch gweinidogion.
 - Gwnewch asesiadau integredig o'r effeithiau'n ganolog i ddatblygu a chyflawni polisi.
 - Gwrandewch yn ofalus ar brofiadau go iawn dinasyddion yr ydych yn ceisio'u helpu a'r sefydliadau sy'n gweithio er budd y bobl hynny, rhowch sylw manwl i'r profiadau hynny dysgwch ohonynt.
 - Daliwch i wirio eich llwybr a'ch tybiaethau am effeithiau – nid yw unwaith byth yn ddigon – mae'r byd yn newid hyd yn oed wrth i chi symud...
 - Y ffordd o ddal i wirio yw dal i siarad – sefydlwch a “gofalwch am” sgwrs barhaus gyda'r gymdeithas sifil a sefydliadau rhanddeiliaid.
 - Peidiwch byth ag ofni gorfod newid cwrs!

4. Trafodaethau'r gweithdai: heriau, pwyntiau dysgu ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd, o allbynnau'r grwpiau trafod yn y gweithdai, brif negeseuon am heriau posibl a datrysiadau awgrymedig i Lywodraeth Cymru ddwyn cynnydd amserol ac adnabyddadwy wrth weithredu a chymhwysio deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd rhai o'r negeseuon hyn o ddiddordeb yn arbennig i bobl sy'n gweithio yn y rhannau o Lywodraeth Cymru sydd yn y "canol corfforaethol" ac eraill i adrannau portffolios; ond byddant i gyd yn berthnasol ac yn ddiddorol i staff Llywodraeth Cymru, ble bynnag y maent yn gweithio yn y sefydliad.

4.1 Deall deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – rhai negeseuon pwysig o'r gweithdai i'n hatgoffa

Datblygu Cynaliadwy, y Tymor Hir ac Atal

- Mae angen defnyddio'r **egwyddor datblygu cynaliadwy** i fframio datblygiad polisi a gwaith cynllunio ar gyfer cyflawni; ei hanfod yw y dylem wastad geisio 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. Mae'n bwysig sicrhau bod yr egwyddor graidd hon yn cael ei chadw'n gadarn mewn cof wrth inni gymhwysu'r pum ffordd o weithio; dyna eu diben.
- Mae sylw i'r **tymor hir yn ganolog i'r modd yr ydym yn cymhwysio deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol** ac roedd y grwpiau yn y gweithdai'n cydnabod yr angen am ddealltwriaeth fwy eglur am yr hyn y mae'n ei olygu. Dylai ystyriaethau 'tymor hir' fod yn fwy nag oes cenedlaethau presennol, dylent roi sylw i oes y rhai nad ydynt wedi'u geni eto. Byddai hyn yn mynd â ni'n nes at ffocws 25-50 mlynedd o'i gyferbynnu â'r cyfnod o 5-25 mlynedd a ystyrir yn aml. Dylai "cyfaddawdau" posibl rhwng y cenedlaethau wastad cael eu hadnabod a'u hystyried ar yr adegau cynharaf wrth ddatblygu polisi a chael eu hegluro yn y naratifau sy'n ategu prosesau penderfynu.
- Bydd yn hollbwysig mynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau a'r diffyg diwylliannol yng ngallu pobl i feddwl am effeithiau hirdymor a'u hystyried. **Mae angen hyfforddiant mewn datblygu dulliau ataliol, hirdymor a defnyddio tueddiadau'r dyfodol**, fel bod swyddogion yn gallu meddwl a chynghori'n well fel eiriolwyr effeithiol ar ran y cenedlaethau sydd i ddod yn y 2030au, 40au, 50au. Mae angen datblygu sgiliau er mwyn adnabod effeithiau posibl a chanlyniadau hirdymor (yn rhai cadarnhaol a negyddol) mewn modd mwy cyflawn; ar gyfer ôl-fynegi a rhagfynegi ac ar gyfer pennu nodau ac amcanion trosiannol mewn fframiau amser degawdol.

- Er y gallai rhai ystyried bod **cynllunio a chyflawni y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol ac ariannol** yn her yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried mewn gwirionedd ei fod yn agwedd hanfodol ar gymorth i weinidogion. Mae'n bosibl bod rheoli gweithgarwch hirsefydlog mewn modd ymaddasol yn allweddol i hyn, gydag eglurder dros ddiben a rhesymeg hirdymor, a thracio cynnydd gan ddangos tystiolaeth dda.
- Mae rhai yn ystyried bod **Llyfr Gwyrdd y Trysorlys** yn blaenoriaethu manteision “byrdymor” ac mae'r dull presennol o ran disgowntio'n bwnc trafod. Gwnaed y sylw na all “tymor hir” gyfateb i adeg benodol mewn amser, y gwneir cyfrifiadau ar ei gyfer, neu ryw darged mympwyol.
- Sut ydym yn sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu yn ein gwaith? Mae taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor, e.e. o ran dyrannu cyllidebau a galwadau am ofal iechyd, wastad yn her, gyda blaenoriaethau byrdymor yn tueddu i lywio'r cyllidebau. Dylem wastad weithio i gyflawni **datrysiadau atal ar lefel sylfaenol** i heriau hirdymor.
- Mae gwaith pwysig yn mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector i egluro a diffinio'n fwy manwl sut y dylem fod yn meddwl am atal wrth lunio polisi a chynllunio ar gyfer cyflawni.

4.2 Polisi a chyflawni integredig – cyngor i weinidogion sy'n gyson â deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Mae integreiddio'n ganolog i arferion da o ran llunio polisiâu – bydd angen llai o bolisiâu pan ydynt yn cael eu creu mewn ffyrdd gwell, mwy integredig.
- Mae **datgysylltiad rhwng polisiâu a rhaglenni** yn digwydd pan fo adrannau'n gweithio ar wahân ac yn unol â'r cyfrifoldebau portffolio gwahanol, gan ei chael yn anodd, er enghraifft, datblygu cyngor ar y cyd i lawer o weinidogion, gyda phryder ynghylch cyngor i wneud penderfyniadau pan ddaw i'r fei bod canlyniadau asesiadau o'r effeithiau'n “gwrthdaro” â'i gilydd.
- **Mae angen i atal fod yn flaenllaw ym meddyliau pobl**, yn anad dim oherwydd yr arbedion y gall eu dwyn yn y dyfodol. Mae'n galw am ddefnyddio'r ystod lawn o offer sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o ddeddfwriaeth a threfniadau treth newydd i berswâd trwy gymhellion cyllidol a mesurau eraill i newid ymddygiad a gyflawnir ar draws sbectrwm y Rhaglen Lywodraethu.
- **Mae angen i'r prosesau a'r mecanweithiau sy'n ategu'r broses o ddatblygu polisi fod yn fwy addas ar gyfer diben Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.** Mae angen dull “porth polisi” newydd i gyflawni dull mwy cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth – mae dull cyffredin o ran asesu'r effeithiau'n rhan bwysig o'r datrysiad.

- Mae wastad yn hanfodol dechrau trwy fod yn glir iawn am y rheswm cymhellol dros ddatblygiad polisi neu gynnig cyflawni. Nid yw hynny wastad mor hawdd ag y mae'n swnio oherwydd, fel y nododd un grŵp trafod, gall ymdrechion i gyflawni consensws a bodloni ystod eang o bryderon ymhlith y llu o wahanol safbwyntiau gan randdeiliaid a safbwyntiau gwleidyddol achosi diffyg eglurder.
- Mae diffyg eglurder o ran yr hyn y mae cynnig polisi, rhaglen neu brosiect yn ceisio'i gyflawni'n ei gwneud yn anodd asesu effeithiau
 - gan olygu bod pobl yn ei chael yn anodd deall neu egluro wrth eraill pam eu bod yn ei wneud.
- Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn teimlo bod **diffyg tryloywder a gwelededd** yn broblem gwirioneddol: "mae llawer o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dda, ond yn anweledig i randdeiliaid allanol; felly mae rhanddeiliaid yn tueddu i droi oherwydd diffyg at ganolbwyntio ar yr enghreifftiau anodd/uchel eu proffil, ac nid ydynt yn gweld nac yn hyrwyddo'r enghreifftiau da".
- Mae'n bwysig chwilio drwy'r amser am fanteision lluosog y gellir eu cyflawni trwy gynllunio a dylunio deallus, e.e. meddwl am y cyfle ar gyfer defnydd ehangach o seilwaith adeiledig, gan gynnwys seilwaith gwyrdd o amgylch i wella iechyd y cyhoedd a bioamrywiaeth.
- Gan gofio nad yw'r holl **ysgogiadau wedi'u datganoli**, bydd yn bwysig cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU.
- Gall pwysau amserlenni, terfynau amser a thargedau ym mheirianwaith y Llywodraeth fod yn her. Gellir teimlo mai effaith llinellau amser, e.e. yn y rhaglen ddeddfwriaethol, yw eu bod yn cyfyngu ar y gallu i gymhwyso'r Ddeddf a deddfwriaeth drawsbynciol arall, megis Deddf yr Amgylchedd, yn llawn ac yn briodol. Y datrysiad, wrth gwrs, yw rhoi sylw i'w gofynion o'r adeg gynharaf mewn gwaith datblygu.
- Mae'n bwysig peidio â mabwysiadu **targedau sy'n "fympwyol" o ran eu natur**, a ddetholwyd o safbwynt cyflwyniadol ac sydd wedyn yn anodd i'w newid neu eu rhoi o'r neilltu, hyd yn oed pan fo tystiolaeth yn dechrau awgrymu'r angen i'w newid. Mae aros gyda thargedau o'r fath yn creu perygl o gadw at lwybrau polisi a chyflawni y dylid eu newid yng ngoleuni'r hyn y gallwn ei ddysgu o brofiad uniongyrchol a/neu o newidiadau yn nhueddiadau'r dyfodol. Wrth gwrs, mae sefydliadau'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill yn ystyried ar y cyfan bod targedau'n ffordd werthfawr o'u dwyn i gyfrif, felly mae angen meddwl yn fwy sut orau i fesur a chyfleu cynnydd a newid, yn enwedig yng nghyd-destun heriol canlyniadau hirdymor.
- Mae angen dewrder i adrodd y stori polisi a chyflawni fel y mae'n datblygu, i frwydro yn erbyn ofn beirniadaeth a bai ynglŷn â'r canlynol:
 - cyfaddefiad nad yw pethau'n gweithio
 - gwastraffu amser ac adnoddau gwerthfawr
 - ffrydiau incwm wedi'i colli o bosibl gan gyfranwyr allweddol tuag at gyrraedd y targedau

- Mae angen mwy o werthuso ffurfiannol a rheoli ymaddasol mewn “amser real”, gan gynnwys pobl a chydweithio yr holl ffordd, gan feithrin ymddiriedaeth a rhoi “caniatâd” cyfunol i ni ein hunain ddysgu a chreu rhywbeth gwell.
- Mae arweinyddiaeth glir, gref yn hanfodol i ddatblygu'r awch angenrheidiol am risg a dealltwriaeth am y rhan y mae methiant yn ei chwarae yn y broses o wella'n barhaus.
- Dylai fod “trywydd archwilio a gofnodir yn briodol” ar gyfer prosesau penderfynu – Ar ba adegau gafodd penderfyniadau eu gwneud, beth oedd y ffactorau dylanwadol, a oedd integreiddio â meysydd polisi eraill? Mae naratif yn bwysig yma – “dangos ein dull o weithio”.
- Cafodd yr angen am fwy o dryloywder ac eglurder ynghylch atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau ei drafod ar un o'r byrddau. Mae proses bolisi gyson a thryloyw ar draws yr holl adrannau'n eithriadol o bwysig, ynghyd â mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau, i osgoi'r profiad “blwch du”.
- Mae angen rhesymu tryloyw, ar ffurf naratifau datblygu ac adroddiadau ar benderfyniadau, i ddangos sut y mae'r opsiwn polisi a ffefrir yn ddewis optimaidd yng nghyd-destun yr holl opsiynau a ystyriwyd.

Cynnwys a Chydweithio

- Yn ogystal â gweithio ar integreiddio ar draws adrannau polisi yn Llywodraeth Cymru, mae cynnwys dinasyddion a datblygu cydweithredol gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys y trydydd sector, yn hanfodol i ddatblygu safbwynt digon eang ynglŷn â chyfleoedd integreiddio a risgiau posibl o'r dechrau un.
- Mae angen i broses benderfynu y mae rhai'n ei ystyried yn “broses benderfynu blwch du” gael ei datgyfrinio ar gyfer partïon â buddiant y tu allan i Lywodraeth Cymru. Mae penderfyniadau, fel y cânt eu cyfleu, yn anodd i'w dadansoddi o ran a ydynt yn seiliedig ar integreiddio polisïau neu a wedi cael eu goleuo gan asesiad integredig o'r effeithiau. Mae angen cynhyrchu naratifau, cofnodion ac adroddiadau ar benderfyniadau sy'n well, ac yn fwy hyblyg, gan ei gwneud yn glir sut y mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud a pha wybodaeth sydd wedi'u hategu.
- Mae angen mwy o barhad a thryloywder o ran deialog gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi – llai o sgysiau sy'n dechrau ac yn dod i ben bob yn ail.
- Pan geir bod angen newidiadau wrth ddatblygu neu weithredu polisi neu gynllun, ar yr amod bod y rhesymeg yn agored ac yn dryloyw, a bod pobl sydd â buddiant/yr effeithir arnynt yn gallu gweld “pam a sut”, yna gellir osgoi adlach diangen a dadl a chyfiawnhad ôl-weithredol yn ddiweddarach.
- Er mwyn dwyn gwelliannau o ran cynnwys pobl, dylai Llywodraeth Cymru dreialu gwahanol fodelau mewn meysydd allweddol: grwpiau cynghori/grwpiau cyfeirio/paneli dinasyddion.

- Mae **grwpiau gweithio/cyfeirio trawsadrannol, grwpiau cynghori, “paneli” a fforymau sy’n cynnwys rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y trydydd sector**, yn chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatblygu a chynllunio polisi. Mae angen iddynt fod yn cyflawni rolau a ddiffinnir ac a gydnabyddir yn fwy eglur a gallent hefyd fod o gymorth i ddatblygu gweithgarwch cynnwys parhaus mwy effeithiol.
- **Gallai eiriolwyr dros genedlaethau’r dyfodol ar lefel uchel** fwydo i mewn i grwpiau cyfeirio datblygiad polisi i helpu i adnabod effeithiau a diffinio canlyniadau tymor hir.
- **Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy agored i gyngor gan rhanddeiliaid allanol.** Mae’n hanfodol bod rhanddeiliaid allanol yn cael eu cynnwys yn gynnar ac yn barhaus ac mae angen dod o hyd i ddatrysiadau, gan gynnwys trwy dechnoleg ddigidol, i’r heriau sy’n gysylltiedig â chasglu ystod eang o safbwyntiau. Mae angen deialog agored, ar y dechrau un a thrwy gydol proses, a honno’n deialog sy’n amlwg yn croesawu ymatebion adeiladol ac yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith pawb sy’n cyfranogi ynddi.
- **Dylai fod cydberchnogaeth ar y problemau strategol mawr** yr ydym ni i gyd yn eu hwynebu – e.e. dros dreuliant, gwastraff ac ailgylchu, sy’n golygu ei bod yn ofynnol dwyn manwerthwyr, busnesau, y trydydd sector, sefydliadau cymunedol a defnyddwyr ynghyd. Mae’n fusnes i bawb – felly mae cynnwys pobl a chydweithio’n hanfodol.
- Mae potensial ar gyfer **ymgysylltu mwy uniongyrchol ar lefel gorfforaethol, ynghylch materion mwy strategol**, a’r rheiny’n cael eu hystyried o safbwynt Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Gallai hyn o bosibl fod trwy ryw fath o grŵp cynghori corfforaethol sy’n cynnwys cynrychiolaeth o bob sector ac sy’n ystyried ac yn cefnogi camau a gweithredoedd i fynd i’r afael â’n heriau ni i gyd o ran gwneud cynnydd tuag at Nodau Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.
- Gallai grŵp o’r fath ystyried datblygiadau ym ‘mecanweithiau’r Llywodraeth’ hefyd. Fel enghraifft cyfeiriwyd at y grŵp sy’n cynnwys prif rwydweithiau ymbarél y trydydd sector a sefydlwyd i roi cymorth i weithredu dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Bydd angen i **weithgarwch parhaus i gynnwys rhanddeiliaid** gael adnoddau digonol a phriodol; rhaid i’r ffordd yma o weithio fod yn un barhaus – mae newid ymddygiad yn cymryd amser hir ac yn galw am adnoddau a medrusrwydd ar bob ochr. Rhaid i bob ochr weld a theimlo bod cynnwys y trydydd sector yn rhywbeth sydd o fudd yn hytrach nag yn faich.

- Mae **gweithwyr polisi proffesiynol arbenigol yn y trydydd sector** yn cymryd rhan mewn rhai o fecanweithiau’r Llywodraeth lle y bo’n berthnasol i’w maes diddordeb. Fodd bynnag, yn aml nid “cynnwys” yw hyn ond yn hytrach adolygu ac asesu o’r ‘tu allan’ a ‘thrannoeth’.
- Ar y cyfan teimlir bod angen mwy o **ymgysylltiad â’r broses gyllideb**; gallai cynnwys sefydliadau’r trydydd sector yn y broses asesu effeithiau fod yn un ffordd effeithiol o alluogi hynny i ddigwydd. Mae **grŵp ‘gwariant ataliol’** wedi cael ei sefydlu, ac mae yn ei ddyddiau cynnar.

- Mae'n bwysig iawn bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn **chwilio am ystod eang o'r bobl gywir yn y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i'w cynnwys**, a'u bod yn gwneud hynny ar yr adegau cywir. Mae hyn yn codi rhai anawsterau posibl y bydd angen eu datrys, gan gynnwys:
- **gwybodaeth annigonol am y sector ar y cyfan**, y bydd ei hangen i sicrhau ymwneud digon eang nad yw'n cael ei ysgogi gan gylch gwybodaeth uniongyrchol, profiad a pherthnasoedd gweithio swyddogion eu hunain
- **yr angen am systemau corfforaethol sydd wedi'u bwriadu i gynorthwyo swyddogion i ymgysylltu'n fwy cynhwysfawr ac effeithiol**. Ceir rhai sefydliadau, grwpiau a rhwydwaithiau ymbarél yn y trydydd sector yn barod sydd wedi'u bwriadu i helpu (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cyngghair Henoed Cymru, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a.y.b.), sy'n cynnig un pwynt mynediad i swyddogion ofyn am y dulliau ymgysylltu gorau. Fodd bynnag codwyd y cwestiwn a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol at ddibenion cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn, ynteu a oes angen meddwl mwy, yn gorfforaethol, am y cwestiwn.

Cynnwys pobl i drefnu Cynllun Aer Glân i Gymru – negeseuon allweddol

Sut ddylai cynllun cynnwys pobl hollgynhwysol edrych ar gyfer creu Cynllun Aer Glân?

- Bydd yn hanfodol cynnull yr holl gyfranwyr allweddol o amgylch y bwrdd – yn sectorau ac yn ddefnyddwyr gwasanaethau – gan gofio mai cwmnïau byd-eang sydd â'r mwyaf o adnoddau...
- Bydd angen cyfleu negeseuon derbyniol – gyda data gwell a gwyddonwyr sy'n gallu ei gyfleu'n eglur a gwneud y neges yn berthnasol.
- Mae polisi ansawdd aer yn brawf da o sylw i'r tymor hir/ffocws ar **genedlaethau'r dyfodol**: mae rhai canlyniadau cadarnhaol sy'n ymwneud ag iechyd a'r economi fwy na chenhedlaeth i fwrdd.
- A yw cynnwys yn gweithio'n well pan fo'n canolbwyntio ar weithredu ymarferol yn hytrach na damcaniaeth? Mae ar y trydydd sector a dinasyddion angen enghreifftiau dealladwy nid "cysyniadau".
- Mae cynnwys yn effeithiol yn sgil y mae ei angen ar bob ochr – mae angen i bobl brofi cynnwys da i allu ei wneud – dysgu a gwella trwy wneud yw'r allwedd.
- Bydd angen i'r berthynas â rhanddeiliaid dros ddatblygu'r Cynllun Aer Glân gael ei chynnal yn weithredol. Bydd angen iddynt allu tracio cynnydd a gweld beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i gael eu cynnwys.
- Dylai gweithgarwch cynnwys wrth ddatblygu'r cynllun fod yn seiliedig ar ymchwil i arfer da, gan ddefnyddio ystod o ddulliau gwahanol, gan gynnwys cyfryngau digidol ac ymgysylltu trwy ysgolion a thrwy gyflogwyr i newid arferion i wella ansawdd aer. Yn Llywodraeth Cymru mae gwaith cynyddrannol yn digwydd i achosi newid ymddygiad mewn perthynas ag ansawdd aer – e.e. mesurau sy'n ymwneud â theithio.

- Mae gan grwpiau ffocws rôl ddefnyddiol, sy'n werth y gwariant os caiff ei chyflawni fel rhan o Asesu'r Effeithiau ar wahanol adegau.
- Mae'n bwysig tynnu BGLlau i mewn i waith cynnwys a'i ganfyddiadau mewn perthynas ag Ansawdd Aer.
- Cynnwys, yn enwedig grwpiau lleol mewn cymunedau, yw'r allwedd i weithredu a gwerthuso effeithiol hefyd – elfen hanfodol yn y cylch adborth.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnwys pobl i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud newidiadau mewn ymddygiad yn 'rhwydd i ddinasyddion' – trwy fesurau cynllunio, dylunio a seilwaith.

4.3 Rheoli gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol – ymateb systemig, 'Llywodraeth gyfan', i'r Ddeddf

Mae 'dull Llywodraeth gyfan' o weithredu deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu dull corfforaethol integredig ar draws gweithrediadau swyddogaethol Llywodraeth Cymru: llywodraethu blaengar mewn perthynas â phethau megis ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys; perthnasoedd â rhanddeiliaid; datblygu medrusrwydd staff; sgiliau a phrosesau llunio polisi; cynllunio busnes, rheolaeth ariannol, caffael a chyllid; asesu effeithiau, monitro a gwerthuso ac adrodd.

Beth yw 'mecanweithiau'r Llywodraeth'?

- Nid yw prosesau penderfynu, gan gynnwys asesu'r effaith, arfarnu'r opsiynau a chynghor i weinidogion, yn cael eu deall yn eang y tu allan i'r Llywodraeth.
- Nid yw agweddau eraill ar "fecanweithiau'r" Llywodraeth yn cael eu deall yn dda ychwaith, agweddau megis trefniadaeth y gwasanaeth sifil ei hun a sut y mae'n ceisio datblygu a gwella, neu'r offer y mae'n eu defnyddio i gyflawni agenda'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth, caffael, cyllid ar ei holl ffurfiau, a chyfathrebu.
- Heblaw am gaffael a gweinyddu grantiau, y mae gan sefydliadau'r trydydd sector fwy o brofiad ohonynt, a'r broses datblygu polisi mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt, mae llawer o sefydliadau'n teimlo nad oes ganddynt rhyw lawer o ddealltwriaeth neu nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth am weddill "peirianwaith", systemau a phrosesau'r Llywodraeth. **Byddai gwybodaeth sydd ar gael yn rhwyddach o gymorth i ddangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a sut y mae'n rheoli'r newidiadau y mae eu hangen i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd fwyaf effeithiol.**

Gall yr adroddiad hwn helpu i drefnu'r cynlluniau ar gyfer newid; mae'n cwmpasu pedair agwedd sylfaenol ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu, yr awgrymwyd yn nhrafodaethau'r gweithdai y gallent gyflawni cynnydd go iawn o ran gweithredu a chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr agweddau hyn, yr ymdrinnir â hwy yn yr adrannau a ganlyn, oedd:

- integreiddio polisi – “cydgysylltu”
- asesu'r effeithiau
- capasiti a medrusrwydd o ran y ffordd y mae pobl yn gweithio
- caffael – ysgogiad pwysig iawn ar gyfer newid.

Integreiddio Polisi – Er mwyn rhoi cymorth priodol i weinidogion pan ydynt yn gwneud penderfyniadau, mae angen iddynt gael cyngor y meddylwyd yn ofalus amdano ac sy'n seiliedig ar resymeg dda ynghylch cyfleoedd ar gyfer gweithredu integredig a chydweithio, sy'n galw am waith cwmpasu a pharatoi trwyadl gyda rhanddeiliaid allanol gan swyddogion.

- Mae **ffocws cul ar un nod llesiant** yn datgelu diffyg integreiddio a dull sy'n methu â chefnogi'r amcanion llesiant a chanlyniadau cyffredin. Er mwyn cyflawni manteision go iawn integreiddio polisiâu, mae angen i Adrannau Llywodraeth Cymru brofi ystod eang o ddulliau o weithio mewn ffordd fwy trawsbynciol, o reoli byrddau rhaglenni a gweithgorau trawsadrannol i brosesau “porth” a herio newydd, a allai gynnwys rhanddeiliaid allanol hefyd.
- Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, “Ffyniant i Bawb”, yn cynnwys **gofynion eglur ar gyfer integreiddio polisiâu a gwaith cyflawni** ac mae ymdrechion sylweddol yn datblygu ar draws adrannau i sicrhau integreiddio gwell. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir o derfynau amser gweinidogol a fframiau amser tynn eraill, mae'n aml yn teimlo'n grynn her gweithio mewn ffordd gwbl gydgysylltiedig.
- Mae **diffyg gweledigaeth gyffredin** yn golygu bod pobl yn fwy tueddol o weithio mewn seilos; byddai darlun mwy unedig o Gymru sawl degawd yn ddiweddarach, ac yn agosach at gyrraedd Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ysbrydoli mwy o weithio cydgysylltiedig ar draws Adrannau ac yn eu galluogi i fapio llwybrau mwy eglur, gwell tuag at ei gyflawni.
- Mae **asesiad o'r effeithiau, o'i wneud yn y ffordd gywir, yn gyfrwng delfrydol ar gyfer integreiddio polisiâu** – gan helpu i adnabod, mewn mwydydd polisi eraill, gyfleoedd na fyddid wedi meddwl amdanynt fel arall o bosibl ac effeithiau niweidiol i'w hosgoi.
- Mae **angen i dimau ddysgu mwy am feysydd polisi ei gilydd a'r cyfraniadau y gallant eu gwneud iddynt, ac ymddiddori ynddynt a cheisio'u deall yn well** – er enghraifft, mae'r nodau Cymru Gydnerth a Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang yn dir anghyfarwydd i rai, y gall fod arnynt angen hyfforddiant a gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth, i ddeall sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol atynt a/neu osgoi cael effaith negyddol arnynt.

- Bydd cynnwys pobl y mae maes polisi'n effeithio arnynt yn fwy ac ar adeg gynharach, ynghyd â'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill, yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni cyfraniadau sydd wedi'u hintegreiddio'n well ar draws y nodau llesiant – ond mae angen dull mwy integredig o ymgymryd â'r gweithgarwch cynnwys ei hun. Mae gorfod rhyngweithio â gweithrediadau mewn seilos yn y Llywodraeth yn anodd iawn ac yn mynd â llawer o adnoddau i sefydliadau yn y trydydd sector gan fod rhaid iddynt gael llawer o sgysiau sy'n dweud yr un pethau.
- Gall y broses o gyflawni manteision lluosog fod yn anodd i'w thracio a'i gwirio – dylai'r ffordd y bwriedir gwneud hynny gael ei chytuno a'i sefydlu'n glir ar y dechrau un ac yna dylid cyflawni hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl o ran amser ac adnoddau.
- Mae angen i gyfraniadau adrannol at ganlyniad fod yn eglur i osgoi cymryd 'clod am bopeth' – ond nid yw hynny yr un fath â phriodoli i linellau penodol o wariant ariannol; gall rhai cyfraniadau adrannol gwerthfawr olygu dim gwariant penodol o gwbl.
- Byddai swyddogaeth benodol ar gyfer integreiddio polisiâu yn Llywodraeth Cymru yn ei gwneid yn bosibl herio polisiâu drafft er budd "cydgysylltu" gan gael yr effaith orau bosibl.
- Mae newid diwylliant a meithrin capasiti'n hanfodol er mwyn inni sicrhau bod polisiâu'n gael eu hintegreiddio'n wirioneddol. Mae angen i bobl ddeall yr angen am ddulliau newydd, goresgyn ofn newid a chredu bod ganddynt "ganiatâd" ac amser i roi cynnig ar ddulliau newydd.
- Un syniad radical i sicrhau integreiddio gwell fyddai dull newydd o ddyrannu cyllidebau adrannol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod â chynlluniau integredig a chydweithredol nad ydynt yn cael eu cyllido nes ceir tystiolaeth glir o bolisiâu a chynllunio ar y cyd. Byddai cynigion a ddatblygwyd ar y cyd yn cael eu cyllido ar draws adrannau.

Bydd cynnydd o ran integreiddio polisiâu'n cael ei weld a'i ddangos yn y canlynol:

- Atebion hyderus a boddhaol, a roddir yn llawen, i'r cwestiynau canlynol ynglŷn â pholisi neu gynlluniau cyflawni:
 - Beth yw diben craidd y polisi neu'r cynllun hwn?
 - Beth yw'r canlyniadau cyffredin y mae'n ceisio cyfrannu atynt?
 - Pa fanteision lluosog ydych chi'n disgwyl eu cyflawni trwy'r ffordd y caiff ei roi ar waith?
 - Beth oedd y syniadau a'r dystiolaeth a arweiniodd at ei ddatblygu ac a ddylanwadodd ar hynny?
 - Pwy sydd wedi arwain y gwaith a pham?
 - Pwy maent wedi'u cynnwys, sut ac ar ba adegau?
 - Pa waith i asesu'r effeithiau a wnaed a phwy fu'n rhan ohono?

- Sut y mae tueddiadau'r dyfodol wedi dylanwadu ar y polisi/cynllun hwn?
- Ydych chi wedi archwilio buddiannau timau polisi/cyflawni eraill?
- Pa gyfleoedd ydych chi wedi'u canfod i gydweithio gyda phartïon â buddiant, yn fewnol neu'n allanol, er budd eich polisi/cynllun chi a/ neu eu polisi/cynllun hwy?
- Bydd naratifau eglur iawn, sy'n hygyrch iawn, a'r rheiny'n ymdrin â'r atebion i'r cwestiynau hyn a chwestiynau eraill wedi cael eu datblygu wrth i'r polisi neu'r gwaith cyflawni fynd rhagddo.
- Bydd tystiolaeth o gynnwys pobl yn barhaus – gan ddefnyddio ystod o ddulliau megis paneli, grwpiau cyfeirio, grwpiau cynghori a fforymau eraill: yn rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn rhai byw ac ar-lein.
- Bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gallu cadarnhau eu bod yn gweld yn glir beth yw'r rhesymeg sy'n tanategu datblygiad y polisi neu'r cynlluniau cyflawni y mae ganddynt fuddiant ynddynt. Byddant yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y profiad a'r dystiolaeth y maent wedi'u cyfrannu a bod y rheiny wedi cael eu defnyddio trwy gydol y broses ddatblygu, o adeg gynnar ymlaen.
- Bydd cyfrifon mewn "amser real" yn cael eu rhoi o newidiadau yn ystod datblygiad y polisi/cynllun, gan egluro'r drafodaeth a'r rhesymeg sydd wedi arwain atynt, a phwy sydd wedi cael eu cynnwys.
- Bydd trefniadau ar waith i werthuso pa mor dda y mae'r trydydd sector yn 'teimlo' bod integreiddio'n digwydd yn Llywodraeth Cymru a pha mor dda y maent yn teimlo'u bod yn gallu ei gefnogi.

Asesu'r effeithiau

Mae angen i asesiad o'r effeithiau gael ei gwblhau'n wahanol, yn fwy cyfannol ac ar sawl adeg yn y cylch polisi a chyflawni, gan ddechrau'n ddigon cynnar a chyda'r bwriad y bydd yn effeithio ar ddatblygiad y polisi. Dylai ystyried manteision lluosog ar draws y saith nod a dylai fod tystiolaeth bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wedi cael eu rhoi ar waith wrth gynnal yr asesiad. Dylai pobl gael, a chymryd, yr amser a'r adnoddau i'w wneud yn drylwyr ac yn gynhwysfawr, gan gofnodi eu hasesiadau mewn naratif hygyrch, credadwy sy'n gallu gwrthsefyll her.

- Offeryn ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n helpu i sicrhau bod integreiddio'n digwydd yw asesiad o'r effeithiau.
- Yn ein hymgais i gyfrannu at y nodau llesiant, mae'n hanfodol **adnabod yn ddigon cynnar, yn ddigon eglur ac yn ddigon eang**, trwy gynnwys a chydweithio, yr effeithiau cadarnhaol yr ydym yn bwriadu ac yn gallu eu cyflawni, a'r rhai negyddol y dylem eu hatal neu eu lliniaru. **Mae asesiadau o'r effeithiau'n tueddu i gael eu cynnal yn rhy hwyr, pan fo cynigion neu gynlluniau eisoes wedi'u hen lunio.** Dylid eu cynnal ar wahanol adegau yn y cylch polisi a chyflawni: bob hyn a hyn o'r adegau cynnar iawn pan fo anghenion ac opsiynau'n

cael eu harchwilio, wrth “wirio” datblygiad rhaglenni, ac wrth gynnal gwerthusiadau o brosesau gweithredu, yn rhai ffurfiannol a chrynodol. Hyd yn oed pan fo cyfeiriad polisi wedi cael ei bennu, mae wastad cyfle i newid y modd y gellir ei ddatblygu orau yng ngoleuni mwy o fanylion ar gyfer y dystiolaeth.

- **Dylid wastad rhoi sylw i'r cwestiwn sut ydym am i'r tymor hir edrych:** ‘Beth allai'r effeithiau fod ar fywydau ein hwyrion a'u plant hwy a beth fyddem ni'n ei ddymuno iddynt?’.
- **Mae asesu'r effaith yn offeryn defnyddiol a phwysig i ategu datblygiad naratifau esboniadol sy'n “dangos ein dull o weithio”** – mae'n arbennig o hanfodol i ddatblygu achos busnes cadarn a nodiadau o ansawdd da ar benderfyniadau. Gellir a dylid ei wneud ar nifer o wahanol lefelau, o raglenni strategol a phennu cyllidebau i benderfyniadau gweithredol ar lefel is.
- **Mae'n hanfodol sicrhau bod asesiadau o'r effeithiau'n cael eu cynnal yn effeithiol ac yn ystyrlon, mewn ffordd sy'n gwneud y rhesymeg drostynt yn dryloyw** ac fel bod rhanddeiliaid yn gallu gweld yn glir beth yw gwerth bod yn rhan ohonynt. Gallai ‘grŵp rhanddeiliaid corfforaethol/ymgynghorol’ o ryw fath gyflawni rôl strategol yn hyn i helpu i ysgogi mewnbwn effeithiol gan y trydydd sector i asesiadau o'r effaith ar lefel adrannol.
- **Mae'r broses, o'i dilyn yn fecanyddol, yn ‘hawdd’;** mae symud oddi wrthi i ddatblygu dyfnder dealltwriaeth am effeithiau posibl yn ‘anodd’. Os oes “caniatâd” penodol a gofyniad eglur i ystyried effeithiau'n drylwyr, gellir ystyried bod y broses yn galluogi proses dda ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer cyflawni, yn hytrach na bod yn faich.
- Mae **agweddau “ticio blychau”** yn effeithio ar y ffordd y caiff asesiadau o'r effeithiau eu gwneud. Dylai pobl sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau o'r effeithiau fod yn ymwybodol, wrth iddynt wneud hynny, o'r angen i gymhwysu'r pum ffordd o weithio: gan gynnal yr ymarfer mewn ffordd integredig sy'n archwilio'r effaith ar draws holl ystod y nodau llesiant; gan edrych tua'r tymor hir, gyda chyfleoedd ac atal mewn cof; gan fynd ati'n weithredol i gynnwys pobl yr effeithir arnynt o bosibl a cheisio cydweithio yn yr asesiad gyda sefydliadau eraill sydd â buddiant.
- **Mae cynnwys a chydweithio'n hanfodol i gynnal asesiad integredig o'r effeithiau mewn modd effeithiol** – gan ddarparu gweledigaeth â'r ehangder a'r dyfnder sy'n angenrheidiol i gynnwys holl gwmpas y goblygiadau posibl. Bydd sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd â sectorau eraill, yn gallu darparu safbwynt defnyddiol ar dueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor ac effaith debygol ymyriadau polisi.
- **Mae angen amser ac adnoddau i gynnal asesiadau o'r effeithiau mewn modd priodol** ac atal pobl rhag eu cynnal gyda chyn lleied â phosibl o ymdrech ac ar wahân. Mae angen i bobl weld y broses fel rhywbeth sy'n galluogi yn hytrach na baich. Mae angen negeseuon eglur gan arweinwyr a rheolwyr er mwyn i hynny ddigwydd ynghyd â chnewyllyn o bobl fedrus, sydd ar gael i gefnogi eraill wrth iddynt hwy gynnal eu hasesiadau o'r effeithiau – yn unol â'r pum ffordd o weithio.

- Yn yr un modd, mae angen i randdeiliaid allanol a phobl y mae gwrthrych yr asesiad yn effeithio arnynt gael eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well, er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn effeithiol mewn asesiadau o'r effeithiau.
- Bydd yn bwysig darparu adnoddau ar gyfer rhaglen drawslywodraethol, drylwyr i gyflwyno'r dull newydd o gynnal asesiad integredig o'r effaith a ddatblygwyd a rhoi hyfforddiant ynddo, a gwneud hynny yng nghydestun gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – fel bod y ddau'n cael eu cysylltu'n bendant â'i gilydd ym meddyliau pobl.
- Byddai hefyd o fudd mawr gwneud yr hyfforddiant yn agored i gyrff cyhoeddus a sefydliadau allanol eraill, gan gynnwys y trydydd sector.
- Nid yw adnoddau ar gyfer tueddiadau'r dyfodol yn flaenllaw ym meddyliau pobl ar hyn o bryd pan ydynt yn cynnal asesiadau o'r effeithiau; mae angen gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd.
- Mae dealltwriaeth “sylfaenol” gadarn yn elfen hanfodol mewn asesiadau o'r effeithiau; mae angen i dystiolaeth gael ei chyflwyno fel rhan o asesiad ystyrion a dibynadwy; mae hyn yn mynd â phobl ymhell y tu hwnt i “ymarfer ticio blychau” ac eto mae'n galw am amser ac adnoddau.
- Dylid meddwl yn ofalus am y modd y defnyddir data mewn asesiadau o'r effeithiau, gan osgoi ei ddefnyddio, neu ei orddefnyddio, yn syml am ei fod ar gael, yn hytrach na phenderfynu pa ddata a gwybodaeth arall, yn ddata a gwybodaeth ansoddol yn ogystal â meintiol, y gall fod eu hangen mewn gwirionedd a gweithio i lenwi'r bylchau, lle nad yw ar gael yn rhwydd.
- Mynegwyd pryder yn y gweithdai ynghylch diffyg tystiolaeth ar y cyfan, yn enwedig o ran y nodau Cymru Gydnerth a Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang; Mae angen gwaith i lenwi bylchau o'r fath yn y dystiolaeth cyn y gellir dangos cynnydd yn effeithiol.

Bydd cynnydd gyda'r arfer o asesu'r effeithiau'n cael ei weld a'i ddangos yn y canlynol:

- Atebion hyderus a boddhaol, a roddir yn llawen, i gwestiynau megis y canlynol:
 - Beth mae eich asesiad o'r effeithiau wedi rhoi sylw iddo a pham?
 - Ar ba adegau yn y llinell amser datblygu a gweithredu polisi y mae asesiad o'r effeithiau wedi cael ei gynnal a phryd ydych yn bwriadu ei wneud eto?
 - Pwy sydd wedi cael/a fydd yn cael ei gynnwys a sut?
 - Gyda phwy ydych chi wedi ceisio/fyddwch chi'n ceisio cydweithio a sut?
 - Sut y mae tueddiadau'r dyfodol wedi dylanwadu ar siâp eich asesiad o'r effeithiau, y gwaith cynllunio ar ei gyfer a'i gynnwys?

- Bydd ymatebion boddhaol yn cael eu rhoi i heriau ynghylch unrhyw un o'r cwestiynau hyn.
- Bydd sefydliadau'r trydydd sector ac eraill sy'n rhan o'r broses yn gallu cadarnhau eu bod yn teimlo'u bod wedi cael eu cynnwys ar adeg gynnar ac wedi gwneud cyfraniadau defnyddiol a phwysig at asesiad trylwyr, wedi'i integreiddio'n dda, o'r effeithiau – a bod eu cyfraniadau wedi cael sylw ac wedi cael eu defnyddio.
- Bydd y rhai sy'n cynnal asesiadau o'r effeithiau'n gallu cyfeirio'n rhwydd at bethau y maent wedi'u dysgu a'u newid o ganlyniad i'r prosesau cynnwys a chydweithio y maent wedi'u cynnal.

Enghraifft o Asesiad Integredig o'r Effeithiau i ddylanwadu ar Gynllun Aer Glân i Gymru – negeseuon allweddol

- **Mae angen newid system gyfan o ran y ffordd y caiff asesiadau o'r effeithiau eu cynnal** – mae hynny ar y gweill ond bydd angen ei ddefnyddio'n gyflym ac yn dda wrth ddatblygu'r Cynllun Aer Glân, gan gynnal yr asesiadau priodol ar yr adegau priodol. Dylai fod yn broses ailadroddus, sydd hefyd yn cynnwys y bobl gywir ar yr adeg gywir.
- **Bydd yn bwysig cadarnhau'n eglur beth yw diben yr asesiad cyfranogol hwn o'r effeithiau a phwy sy'n gyfrifol am ei reoli.** Dylai'r broses fod yn ganolog i waith pobl a bydd angen i bawb sy'n rhan ohoni ddeall pam ei bod yn bwysig a sut y bydd yn helpu.
- **Bydd angen i arfarniadau o'r opsiynau ymgorffori asesiadau trylwyr o'r effeithiau yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn "Ffyniant i Bawb",** cyfraniadau at y saith nod llesiant, a gaiff eu rhannu gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan y Ddeddf ac y mae'n anorffod eu bod yn rhan o ddiben cyffredin gwella ansawdd aer yng Nghymru.
- **Bydd cynnwys dinasyddion ar raddfa eang yn hanfodol** i gyflawni'r newidiadau mewn ymddygiad y mae eu hangen i fynd i'r afael â llygredd aer a chysylltiad pobl ag ef.
- **Bydd angen i ni adnabod a mynd i'r afael â'r bylchau mewn data a gwybodaeth arall** y mae angen eu llenwi er mwyn i waith trylwyr i asesu'r effeithiau ddigwydd.
- **Mae angen asesu'r effeithiau mewn ffordd integredig, gan ddefnyddio "dull porth" ar draws adrannau a meysydd polisi perthnasol** – gan archwilio effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Mae angen i'r Asesiadau o'r Effeithiau fod yn hygyrch, yn dryloyw a gallu cael eu gwirio** – h.y. dangos tystiolaeth yn glir.
- **Bydd Cynllun Aer Glân i Gymru'n effeithio ar holl Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** – Mae'n bwysig cofio wrth ei ddatblygu nad yw'r nodau'n bodoli ar wahân i'w gilydd ac y dylai pob sector fod yn rhan o gyfrannu atynt. Bydd yr asesiadau o'r effeithiau'n helpu i ddangos sut orau i gynyddu'r manteision i'r eithaf ar draws y nodau

heb yr angen am “gyfaddawdau”. Dylem amcanu at newid o asesiadau arwynebol, sydd wedi’u ffurfio’n wael, i ymdrech ehangach, dyfnach a fydd yn helpu i adnabod datrysiadau lle mae pawb yn ennill am y gost isaf bosibl.

- **Bydd angen i gyllidebau mewn portffolios gwahanol gydweithio i ddwyn yr effeithiau a ragamcanir;** felly bydd angen dod o hyd i ffordd o roi cyfrif am fanteision cyffredin, ehangach.
- **Bydd arnom angen pobl ddewr sy’n barod i ystyried syniadau newydd am integreiddio polisi** – bydd arweinyddiaeth yn allweddol i hynny.
- **Bydd angen i ni ystyried effeithiau mewn gwahanol fathau o ardaloedd a theilwra’r ymatebion i amgylchiadau lleol penodol.**
- **Bydd yn hanfodol rhoi diweddariadau rheolaidd i weinidogion a rhanddeiliaid o’r dechrau un ar y manylion sy’n dod i’r amlwg o waith i asesu’r effeithiau** – i’w gwneud yn bosibl mynd ati mewn modd ailadroddol i greu Cynllun Aer Glân sy’n addas ar gyfer dibenion rheolaeth ymaddasol.
- **Gallai datrysiadau ar-lein fod yn rhan o’r ateb i gynnal asesiadau integredig o’r effeithiau.** Mae datblygiadau newydd addawol yn mynd rhagddynt yn Llywodraeth Cymru a fydd, o gael eu hategu’n briodol gan hyfforddiant, arweiniad a phroses rheoli perfformiad ar gyfer staff, yn cynnig tir profi delfrydol ar gyfer y gwaith i gynhyrchu Cynllun Aer Glân.
- Bydd yn hanfodol **cynnwys lleisiau dinasyddion wrth archwilio’r effeithiau** – ond bydd rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd, mwy effeithiol o wneud hynny.
- **O ystyried yr hinsawdd bresennol o ran heriau gwleidyddol ynglŷn ag ansawdd aer,** bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen iddynt fod â rheolaeth fanwl ar ddatblygu Cynllun Aer Glân; bydd yn bwysig peidio â gadael i orbryder o’r fath gyfyngu ar yr union brosesau cynnwys, tryloywder a chydweithio a fydd yn mynd mor bell â helpu i osgoi heriau yn y dyfodol... Wrth gydgyhyrchu datrysiadau ceir dealltwriaeth fwy manwl am y materion ac mae meddyliau’n dod ynghyd i ddod o hyd i ddatrysiadau sy’n llai agored i gael eu herio. Mae hyn yn galw am fuddsoddiad difrifol o ran ymddiriedaeth ac amser; ond mae’n fuddsoddiad i arbed ar gostau ‘ymladd tân’ ac ymdrin ag anghydfodau yn y dyfodol.
- **Gall y trydydd sector fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer cynnwys y gymuned ehangach.** Mae newid ymddygiad wastad yn rhywbeth anodd i’w gyflawni; un datrysiad posibl fyddai treialu dulliau mewn ffordd systematig trwy ‘Gynlluniau Peilot Newid Ymddygiad’, e.e. mewn perthynas â theithio llesol a darparu llwybrau diogel i’r ysgol i roi anogaeth ar gyfer dewisiadau yn lle defnyddio ceir.

Capasiti a Medruswydd

Mae angen i ffyrdd newydd o agor meddyliau, datblygu meddwl ochrol a thorri hen arferion gael eu harchwilio'n drylwyr. Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig yn hyn o beth – ar bob lefel yn Llywodraeth Cymru. Mae angen i swyddogion ddatblygu'r gallu i gyfleu ffyrdd o feddwl am bolisiau trwy naratif, cynnal deialog agored a dysgu gan ddinasyddion a rhanddeiliaid – a dangos eu bod wedi gwneud hynny. Llai o bolisiau sydd wedi'u hintegreiddio'n fwy ddylai'r nod fod.

Capasiti a medruswydd Llywodraeth Cymru

- Gall capasiti swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud gwaith datblygu polisiau'n drylwyr ac yn dda, o ran cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, deimlo fel pe bai dan straen yn aml, ond byddai llai o bolisiau a gaiff eu creu mewn ffyrdd gwell, mwy integredig, mewn gwirionedd, yn lleddfu'r straen; byddai hynny'n golygu bod y ffyrdd o weithio'n cael eu defnyddio i weithredu'n fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol. Dylem weithio i ennill cefnogaeth ar draws y sefydliadau trwy drefniadau rheoli perfformiad da sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo'r pum ffordd o weithio.
- **Mae medruswydd yn fwy o broblem na chapasiti** – Mae'r medruswydd i lunio polisiau o fewn fframwaith newydd y Ddeddf yn gyfyngedig. Yn arbennig, mae angen dychymyg i archwilio effeithiau ehangach posibl polisi neu gynllun cyflawni mewn modd priodol. Wrth geisio datblygu medruswydd, bydd angen mynd i'r afael ag ymddygiadau wedi'u dysgu a'r duedd i “gadw'n ddiogel mewn tiriogaeth gyfarwydd”. Mae mabwysiadu safbwyntiau sydd wedi hen galedu dros 'brosiectau anwes', amharodrydd i fentro ac ofn heriau oll yn faterion y bydd angen mynd i'r afael â hwy ble bynnag y doir ar eu traws.
- **Mae gwaith i'w wneud o ran symud pobl i ffwrdd o feddylfryd ticio blychau a'r demtasiwn i neidio i mewn i ddatrysiadau cyn cynnal sgysiau ac archwilio amcanion cyffredin.** Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pobl yn fwy ymwybodol o fuddiannau ehangach a manteision cynnwys a chydweithio – bydd **dull wedi'i adfywiocáu mewn lle mae cymorth proffesiynol i lunio polisiau yn y cwestiwn yn helpu.**
- Mae arnom angen i newid mewn diwylliant a newid mewn proses ddigwydd gyda'i gilydd ac “ar y cyd” â'i gilydd.
- Mae angen arweinyddiaeth ac arweiniad eglur a chymorth i ddatblygu er mwyn gwreiddio'r defnydd o fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wneud penderfyniadau, gan gynnwys sgysiau gonest iawn am ddisgwyliadau a chanlyniadau. Bydd gwaith i ddiogelu at y dyfodol gan Lywodraeth Cymru yn hollbwysig o ran llywio hyn.
- Mae angen i **hyfforddiant ar gyfer y proffesiwn polisi** sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y ffyrdd o weithio a nodau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn flaenllaw ym meddyliau pobl. Mae rheoli perfformiad yn rhan o'r datrysiad – gan gydnabod a gwobrwyo camau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

- Ni welir neu ni deimlir bob amser bod polisïau'n "canolbwyntio ar ddinasyddion" yn ddigonol – mae angen gallu adnabod yn glir bod polisïau'n cwrdd â disgwyliadau sifil o ran cyfiawnder thegwch cymdeithasol. Y gallu i reoli camau cynnar i gynnwys y rhai y mae polisi neu gynllun cyflawni'n effeithio arnynt yw'r allwedd i ddatrys hyn. Bydd secondiadau yn y ddau gyfeiriad rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a mynd i'r afael ag unrhyw dueddiadau i edrych tuag i mewn neu ddiffyg ymwybyddiaeth.
- Nid yw her tracio cynnydd tuag at rai canlyniadau, dros rychwantau oes hirdymor, yn rheswm dros adael i ddeialog barhaus 'golli stêm' – mae'n hawdd dod o hyd i ddangosyddion cynnydd, cytuno arnynt, eu tracio a'u hadolygu trwy ddeialog weithredol gyda sbectrwm digon eang o sefydliadau sydd â buddiant.
- Mae angen i ffyrdd newydd o sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys yn fwy cael eu datblygu a'u treialu'n weithredol: ffyrdd hyblyg ac amrywiol o wneud rhanddeiliaid yn rhan o lunio polisïau.
- Mynd ati yn awr i ddechrau datblygu llif gwybodaeth a deialog yn y ddau gyfeiriad yng nghyswllt llunio polisïau.
- Gan edrych tua'r tymor hir, mae gan addysg rôl bwysig o ran hau'r hadau ar gyfer cymhwyso'r pum ffordd o weithio yng nghalonau a meddyliau gweision sifil y dyfodol...! Nid oes a wnelo ag ychwanegu "peth" arall at y cwricwlwm – mae a wnelo â sut yr addysgir popeth arall...

Capasiti a medrusrwydd y trydydd sector

- Ceir diffyg capasiti a nodir yn eang ymhlith rhanddeiliaid i ymgysylltu mewn sawl cyfeiriad. Mae angen trafodaeth fwy agored ynglŷn â'r mater hwn, ac mae angen datblygu datrysiadau mwy arloesol.
- Ceir diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith rhai grwpiau rhanddeiliaid am berthnasedd y Ddeddf. Mae rhai pobl yn y trydydd sector yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r amser i ddeall a meithrin y capasiti i chwarae rhan. Mae gwneud rhaglenni hyfforddi a meithrin capasiti Llywodraeth Cymru yn agored i'r trydydd sector yn ffordd bosibl o helpu; byddai hefyd yn helpu i feithrin perthnasoedd cryfach, mwy cydweithredol.
- Byddai mwy o gyfnewidiadau secondio ddwyffordd gyda Llywodraeth Cymru o gymorth hefyd, ac mae cynnwys pobl yn y broses o ddatblygu polisïau'n ddull 'dysgu gweithredol' defnyddiol i helpu'r trydydd sector.
- Gyda golwg ar y tymor hir, awgrymwyd hefyd y byddai cyflwyno'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio fel rhan o ddarparu addysg gynnar, dros amser, yn helpu i'w gwneud yn rhan o sylfaen ddealltwriaeth ehangach ar draws y gymdeithas sifil.
- Nid yw ymarferion ymgysylltu "gosod", ysbeidiol, mor effeithiol â deialog barhaus; ond mae angen meddwl yn ofalus am sicrhau deialog barhaus mewn ffordd sy'n hydrin ar bob ochr o ran capasiti ac mae angen i hynny fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyffredin. Mae llawer

o sefydliadau'r trydydd sector yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'r Llywodraeth mewn sawl cyfeiriad; felly mae angen ffyrdd cydgysylltiedig, hyblyg ac amrywiol i wneud rhanddeiliaid yn rhan o lunio polisiau a mecanweithiau'r Llywodraeth.

- Mae angen i **enghreifftiau da o gynnwys pobl sydd wrthi'n datblygu**, megis ymgysylltiadau diweddar ynghylch polisi cynllunio, neu ymgysylltu â'r sector iechyd, y sector addysg a'r trydydd sector ynghylch y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, gael eu defnyddio'n weithredol i roi arweiniad i eraill.
- Mae angen goresgyn **agweddau ar 'fwlch diwylliannol' rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector** ac mae angen magu mwy o ymddiriedaeth ar y ddwy ochr trwy ddeialog barhaus. Dangosodd proses y gweithdai ei bod yn bosibl goresgyn hyn. Fe hwylusodd drafodaeth agored, gonest gyda chytundeb cyffredinol ynghylch yr heriau ond hefyd datrysiadau pwysig ar gyfer llunio ar y cyd.

Bydd cynnydd o ran datblygu capasiti a medrusrwydd yn cael ei weld a'i ddangos yn y ffyrdd canlynol:

- Polisi sy'n canolbwyntio'n fwy ar ddinasyddion, lle gall pobl eu hadnabod eu hunain ac adnabod eu cyfraniad at ei ddatblygiad.
- Dull gwell, mwy cyflawn o lunio polisiau sydd â ffocws clir ar bob agwedd ar lesiant hirdymor.
- Llai o bolisiau, a'r rheiny'n bolisiau sydd wedi'u hintegreiddio'n fwy ac sy'n fwy ataliol, gan arwain at lai o angen i ymyrryd.
- Bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gallu cadarnhau eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys ar yr adegau cywir i roi cymorth gwirioneddol i lunio datrysiadau cynaliadwy.
- Byddem yn gweld mwy o enghreifftiau o'r bobl 'gywir' o amgylch y bwrdd ar ddechrau un y broses. Byddent yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y ffyrdd o weithio a'r nodau fel fframwaith ar gyfer trafodaethau.
- Byddai pobl yn y trydydd sector a chanddynt ddiddordeb yn natblygiad polisi neu waith cyflawni penodol yn teimlo'u bod yn gallu cysylltu â'r gweision sifil cyfrifol a chael eu clywed ganddynt a chael eu cynnwys ar bob adeg – o'r adeg pan fo'r polisi'n cael ei lunio i'r adeg y caiff ei weithredu a'i gyflawni a'r adeg pan gaiff ei adolygu a'i ddatblygu ymhellach.
- Bydd deialog yn llifo'n fwy rhydd, gyda llai o angen am ymarferion ymgysylltu 'gosod' sy'n mynd â llawer o adnoddau a sgysiau sy'n dechrau ac yn dod i ben bob yn ail.
- Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo'n fwy hamddenol, hyderus ac yn gyfforddus yn bod yn dryloyw yn eu cyfnewidiadau gyda'r trydydd sector.
- Byddai ymdeimlad cryfach o gydberchnogaeth ar bolisiau, gyda chyfranwyr yn y Trydydd Sector yn teimlo'o bod yn gallu a'u bod wedi 'gwneud gwahaniaeth'.

- Bydd staff Llywodraeth Cymru yn cadarnhau eu bod yn cael negeseuon arwain eglur a chymorth gan uwch reolwyr i'w hannog a'u helpu i gymhwysu'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Gwelir bod Llywodraeth Cymru yn disgrifio mesurau trosiannol mwy effeithiol o gynnydd, fel bod gweinidogion yn gallu rhoi cyfrif da o'r gwahaniaethau y maent yn eu gwneud gan fod â llygad hefyd ar gyflawni canlyniadau mwy hirdymor y tu hwnt i'w tymor yn y swydd.

Caffael

Ystyrir mai cyflymder a graddfa'r newid yw'r broblem yma – mae'n bwysig cydio yn y broblem yn gyflym a gwneud newidiadau systemig go iawn, gyda'r holl arweiniad a hyfforddiant angenrheidiol. Mae angen mwy o arloesi yn y ffordd y caiff manylebau fframweithiau eu datblygu ac yr adroddir ar fframweithiau – dylent gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o egluro'r diben a bod wedi'u llunio ar y cyd yn fwy effeithiol ar draws meysydd polisi ac adrannau i alluogi ymarferion caffael ar y cyd sy'n dwyn manteision lluosog y gellir eu gwirio a, lle y bo'n bosibl, eu mesur.

- Gellir dod o hyd i enghreifftiau da o gaffael sy'n cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond nid ydynt yn cael eu gweld nac yn hysbys yn ddigon eang – Mae prif-frydio'n her fawr ac mae angen rhoi sylw i'r oedi wrth bontio o bytiau o arfer gorau i newid systemig gwirioneddol a hynny'n gyflym trwy ddiwygio prosesau yn ogystal â datblygu staff. Mae angen buddsoddi mwy o amser ac ymdrech a gellid ystyried y cyfle ar gyfer achrediad newydd.
- Mae angen system ym maes caffael i “bennu gwerth” manteision lluosog ar draws y nodau llesiant – un sy'n mynd ymhell y tu hwnt i gwmpas yr hen “Offeryn Manteision Cymunedol”. Byddai'n ddefnyddiol pe bai penaethiaid cyllid ar draws yr holl gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dod ynghyd i archwilio ac adolygu'r ffordd y caiff gwerth manteision lluosog ei bennu o fewn y broses gaffael. Nid yw'r ffocws presennol ar fanteision economaidd a chymunedol yn ei gwneud yn bosibl ystyried effeithiau amgylcheddol a byd-eang ehangach.
- Mae busnesau llai a sefydliadau'r trydydd sector yn dal i'w chael yn anodd cyfranogi ym mhrosesau caffael y Llywodraeth, sydd yn y pen draw yn bygwth effeithiau niweidiol ar draws sawl un o'r nodau llesiant – bydd mwy o arloesi o ran datblygu fframweithiau a chymorth ar gyfer y gadwyn gyflenwi'n helpu i fynd i'r afael â hyn.
- Dylai cydweithio a chaffael a gydgyssylltir yn well ar draws adrannau ddeillio o integreiddio polisiâu a gwaith cyflawni yn well, a byddant yn helpu i ategu proses integreiddio o'r fath hefyd. Gall y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwasanaeth Caffael Canolog Llywodraeth Cymru helpu i lywio hyn trwy sylwi ar gyfleoedd i integreiddio.

- Mae angen naratifau mwy eglur a phrosesau adrodd corfforaethol mwy cyson mewn perthynas ag ymarferion datblygu fframweithiau a chaffael, i ddangos sut y dylanwadwyd arnynt gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y ffyrdd o weithio a'r angen i gyfrannu'n gadarnhaol ar draws y nodau llesiant a sut y byddant o gymorth i'w cymhwyso.
- Mae angen i'r broses cyn-gymhwyso a'r meini prawf pwysoli ar ei chyfer gael eu defnyddio'n dda i ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda dealltwriaeth ddigon eang o "gostau" – yn aml mae cost yn cael ei hystyried o safbwynt seilo yn hytrach na chostau a manteision ehangach ar draws Llywodraeth Cymru, manteision sy'n cyfrannu'n ehangach at yr amcanion llesiant ac ar draws y saith nod llesiant.
- Mae angen newid diwylliannol i gymhwyso'r Ddeddf yn llawn i'n harfer ym maes caffael – i symud y tu hwnt i "gamau bychain" yn hyn o beth, mae angen i uwch arweinwyr anfon arwyddion cryf i'w timau, gydag astudiaethau achos da'n cael eu defnyddio i helpu i newid ymddygiad a chynllun datblygu medrusrwydd penderfynol.
- Gall y modd y rheolir cyllidebau a dyraniadau cyllid yn Llywodraeth Cymru wneud caffael cydweithredol, strategol yn anodd – mae'n bosibl y gallai mwy o gyllidebau cyfunol gwirioneddol neu dybiannol fod yn ddatrysiaid.
- Bydd angen arweinyddiaeth gref ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i sicrhau bod newid yn cael ei ysgogi trwy gaffael.
- Mae angen adolygiad o fframweithiau i archwilio'r modd y maent wedi'u saernïo, sut y maent yn gweithredu a sut y gellir eu haddasu er mwyn gweithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well.

Bydd cynnydd ym maes Caffael yn cael ei weld a'i ddangos yn y canlynol:

- Bydd system wedi'i llunio ar y cyd ac a gydnabyddir o fewn y broses gaffael ar gyfer pennu gwerth manteision lluosog ar draws yr holl nodau llesiant yn cael ei defnyddio'n weithredol ar draws Llywodraeth Cymru, a bydd yn amlwg mewn cyfathrebiadau gyda darpar gynigwyr.
- Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu benodol (ac achrediad posibl...?) yn ei lle ar gyfer pawb sy'n ymwneud â chaffael i sicrhau arfer gorau o ran cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bydd rhaglen newid i wreiddio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn ym maes caffael, gyda ffyrddiau gwaith sy'n cwmpasu pethau megis polisi, prosesau a dyluniad systemau caffael a meithrin capasiti yn tracio cynnydd tuag ac amcanion diffiniedig.
- Bydd pawb sy'n rhan o ymarfer caffael yn gallu rhoi atebion hyderus ac argyhoeddiadol i gwestiynau megis y canlynol:
 - Beth, mewn termau penodol ac eang, fydd y broses gaffael hon yn ei gyflawni?
 - Beth yw'r canlyniadau cyffredin y bydd yn helpu i'w cyflawni?
 - Pa fanteision lluosog ydych chi'n disgwyl eu sicrhau trwy'r contract?

- Beth oedd y ffordd o feddwl a’r dystiolaeth a arweiniodd at siâp yr ymarfer caffael ac a ddylanwadodd arno?
- Pwy gafodd eu cynnwys, sut ac ar ba adegau wrth lunio’r ymarfer caffael?
- Sut y mae tueddiadau’r dyfodol wedi dylanwadu ar yr ymarfer caffael?
- Sut ydych chi wedi archwilio buddiannau posibl timau polisi/cyflawni eraill?
- Pa gyfleoedd ydych chi wedi’u canfod i gydweithio yn yr ymarfer caffael, gyda phartïon sydd â buddiant, yn rhai mewnol neu allanol, er budd iddynt hwy a/neu i chi?
- Sut fydd manteision lluosog yn cael eu monitro, eu gwirio a’u defnyddio yn y broses rheoli contract? Sut fydd y broses rheoli contract yn ymdrin â methiant amlwg i’w cyflawni?
- Sut fydd cyflenwyr yn cael eu datblygu’n fwy effeithiol i sicrhau eu bod yn cyflawni manteision lluosog ar draws y saith nod?
- Bydd dull newydd o gynnal arfarniadau o gynaliadwyedd yn ei le, gyda “thicio blychau” yn amlwg yn annerbyniol. Bydd angen i’r set gywir o feini prawf, gan gynnwys y ddealltwriaeth a’r medrusrwydd i ateb gofynion sy’n gysylltiedig â Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, gael ei bodloni cyn y gellir ystyried darpar gyflenwr ar gyfer fframwaith caffael.

4.4 Profi ein bod yn gwella – cynnydd yn natblygiad corfforaethol Llywodraeth Cymru

- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfryngau penodol ar gyfer rhannu gyda rhanddeiliaid y newidiadau a’r gwelliannau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i’w ddatblygiad corfforaethol i ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Lle mae newid cadarnhaol yn digwydd nid yw felly’n cael ei gofnodi, ei weld na’i ddeall o anghenraid gan rhanddeiliaid allanol nac, felly, gan adrannau eraill o fewn y sefydliad.
- Dylai **arfer da hyd yma** gael ei gofnodi, ei rannu, ei grybwyll a’i ddefnyddio i rannu gwersi a ddysgwyd a datblygu canllawiau.
- **Er mwyn i newid a chynnydd ym “mecanweithiau’r Llywodraeth”** gael eu rhannu a’u cydnabod, yn gyntaf rhaid i rhanddeiliaid ddeall yn well beth yw’r “mecanweithiau” hynny. Mae angen iddynt gael eu cynnwys yn fwy mewn rhai o’r prosesau (megis asesiad integredig o’r effeithiau) cyn y byddant yn gallu adnabod newid a chynnydd o ran cymhwyso’r Ddeddf.
- Cydnabuwyd fod **pwysu a mesur cynnydd mewn pethau sy’n anodd i’w “mesur”** yn her er yr awgrymwyd fod profiad y mae sefydliadau’r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill “wedi byw drwyddo” yn ddangosydd da ar gyfer newid a chynnydd. Byddai mynd ati’n fwy mynych ac yn fwy cywir i archwilio sut y maent yn teimlo am weithredoedd ac ymddygiadau y maent yn dod ar eu traws gan Lywodraeth Cymru o gymorth.

- Byddai mwy o ddefnydd o grwpiau ffocws, arolygon a ffyrdd tebyg o bwysu a mesur ansawdd rhyngweithiadau â Llywodraeth Cymru yn darparu deunydd defnyddiol i fwydo i mewn i raglenni datblygiad staff corfforaethol, gan helpu i atgyfnerthu'r broses o gymhwyso'r ffyrdd o weithio; gallai hefyd ddarparu deunydd defnyddiol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.
- **Mae Adroddiadau Blynyddol yn gyfrwng pwysig** ar gyfer dangos cynnydd, nid dim ond o ran effeithiau ar draws y nodau trwy gyflawni'r amcanion llesiant yn "Ffyniant i Bawb", ond hefyd o ran newidiadau a gwelliannau a wneir ym mecanweithiau'r Llywodraeth a'r ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes i roi cymorth i gyflawni effaith gadarnhaol.
- Gallai hyn gynnwys pob agwedd ar lywodraethu o ddatblygiad staff a rheoli cyfathrebiadau i ddefnydd blaengar o gaffael a rheoli asedau cyhoeddus gan gynnwys ystâd y Llywodraeth.
- Felly mae angen i Adroddiadau Blynyddol sy'n ymwneud â gweithredu a chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymdrin â'r canlynol i gyd:
 - cyflawni amcanion
 - cyfraniadau at faterion hirdymor na fyddant yn newid mewn modd adnabyddadwy yn ystod tymor y Llywodraeth
 - gwelliannau ym mecanweithiau'r Llywodraeth – y newidiadau systemig a diwylliannol sy'n gwneud ymateb "Llywodraeth gyfan" yn bosibl.

4.5 Cyflawni effaith gadarnhaol ar draws y saith nod llesiant

- Mae angen i waith i gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, a gwaith ar y cyd gyda chyrrff cyhoeddus eraill i ategu'r nodau llesiant, ddigwydd bob amser yng nghyd-destun yr **egwyddor datblygu cynaliadwy**, gydag effeithiau ar genedlaethau'r dyfodol yn cael sylw pendant.
- **Mae effaith yr un mor bwysig ar draws yr holl nodau** ac roedd peth pryder yn y grwpiau trafod nad oeddent i gyd yn cael eu deall mor dda â'i gilydd ar draws Adrannau Llywodraeth Cymru; e.e. roedd teimlad nad yw Nodau 2 a 7 (Cymru Gydnerth a Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang) yn cael eu deall na'u hystyried yn ddigon eang. Mae angen cywiro hyn, yn anad dim oherwydd eu pwysigrwydd o ran sicrhau llesiant hirdymor cenedlaethau'r dyfodol a'r amgylchedd y byddant yn dibynnu arno.
- Pan fo lefelau dealltwriaeth yn y meysydd hyn yn wael, bydd timau'n ei chael yn anodd rhoi cyfrif eglur a chredadwy o gynnydd tuag atynt. Wrth i dimau polisi ryngweithio'n fwy â'i gilydd yn eu hymdrechion i integreiddio, y gobaith yw y bydd lefelau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn cynyddu ac yn lledaenu. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i wella'n gyflym, gall fod angen cychwyn peth hyfforddiant ar lefel y sefydliad cyfan.

- Rhoddodd y gweithdai ystyriaeth ofalus i'r pwynt, wrth geisio cyflawni effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol ar draws y nodau llesiant, **nad oes un “ateb cywir”**. Gellir gwireddu **manteision lluosog** ar draws y nodau trwy'r ffordd y caiff polisiâu eu datblygu neu y caiff cynlluniau cyflawni eu gweithredu a'r ffordd rwyddaf o adnabod a chyflawni'r rhain yw trwy gynnwys pobl a chydweithio'n eang. Gall cynnwys pobl a chydweithio ar adeg gynnar wrth ddatblygu polisiâu helpu i sicrhau'r manteision gorau posibl ac osgoi effeithiau negyddol ar draws y Nodau.
- Trwy amcanu at gyflawni ystod eang o fanteision lluosog, mae'n aml yn bosibl cyflawni effeithiau cadarnhaol y gellir eu gwirio ar draws y set lawn o nodau; gellir disgrifio'r manteision hyn mewn naratif sy'n hawdd i'w ddeall ac sy'n dangos yn glir bod deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei dilyn yn weithredol.
- **Roedd cryn dipyn o drafod yn y gweithdai am gysyniad “mesur cynnydd”** a chydabuwyd na fyddai data meintioliol ar ei ben ei hun ynghylch y meysydd y mae'r nodau'n ymwneud â hwy yn ddigon i ddangos cynnydd ar draws y nodau. Bydd data ansoddol ynghylch “profiadau y mae pobl wedi byw drwyddynt” yn bwysig hefyd ac awgrymwyd y dylid gwneud gwaith ar y modd y caiff data ei gasglu a'i ddefnyddio.
- Er mwyn helpu i oresgyn anhawster dangos cynnydd tuag at y canlyniadau hirdymor sy'n ganolog i lawer o'r nodau llesiant, yn arbennig ym maes y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, bydd angen adnabod a defnyddio mesurau trosiannol i alluogi swyddogion a'u gweinidogion i ddangos y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at ganlyniadau ymhell y tu hwnt i dymor Llywodraeth.
- Bydd **cyfleu negeseuon cyson dros gyfnod bwriadol** yn bwysig, gyda fframiau amser adrodd hirdymor a, hyd y gellir, gyllidebau “mewn egwyddor” o leiaf.
- Nid yw **graddfa a chyflymder y newid** a ddisgwyllir mewn perthynas â'r nodau a'r dangosyddion yn eglur i bobl. Gall cerrig milltir ar gyfer rhai dangosyddion sy'n newid yn araf helpu i roi darlun o gynnydd; felly ystyrir bod gwaith cyfredol i ddatblygu cerrig milltir yn eithriadol o bwysig wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Atodiad 1 – Yr hyn a wnaethom yn y gweithdai

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio sut yr oedd y gweithdai wedi'u strwythuro. Mae deunyddiau'r cyflwyniadau ar gyfer pob gweithdy i'w gweld ar ddiwedd yr Atodiad hwn.

Yr hyn a wnaethom yng Ngweithdy Un:

Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso – sut i ddangos cynnydd

Roedd Gweithdy Un yn hollbwysig i bawb o ran mynd ati ar y cyd i archwilio llythyren ac ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r disgwyliadau o ran ei gweithredu. Roedd hefyd yn bwysig o ran gosod y cywair o ran sut y byddai cyfranogwyr yn cydweithio. Cyflwynwyd y gweithdai fel cyfle i archwilio:

- dealltwriaeth adrannau Llywodraeth Cymru am y newidiadau y mae eu hangen mewn ymateb i'r Ddeddf
- disgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch effaith y Ddeddf ac ymatebion Llywodraeth Cymru
- ffyrdd effeithiol o gymhwyso'r Ddeddf a dangos cynnydd, sy'n cynnwys rhanddeiliaid ac yn cael eu cyfleu'n eglur.


Gofynnwyd yn benodol i gyfranogwyr adnabod, yn ystod eu trafodaethau, feysydd allweddol a fyddai'n cael sylw yng Ngweithdy Dau, y byddai ei ddiben yn ymwneud ag archwilio 'ymatebion Llywodraeth gyfan' ac offer ar gyfer newid.

Cafodd y gweithdy ei rannu'n ddau ymarfer a ragflaenwyd gan ddau gyflwyniad ar y cyd gan Anne Meikle, WWF Cymru a Gretel Leeb, Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2 am sleidiau'r cyflwyniadau). Roedd y ddau ymarfer bwrdd fel a ganlyn:

1. **Ein dealltwriaeth ni am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso** – gan gynnwys sylw i bwysigrwydd cyfrannu at y nodau cydgysylltiedig, pam na wnaiff "ticio blychau" mo'r tro a phwysigrwydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.
2. **Dangos cynnydd** – Archwilio her dangos cynnydd ar bob lefel ac mewn agweddau lluosog ar wneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni.

Roedd yr ymarfer cyntaf yn archwilio rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth sy'n galw am feddylfryd gwahanol i'n dulliau traddodiadol o ddatblygu a chyflawni polisi, yn enwedig y newid o weithio mewn seilos a "thicio blychau" i gyflawni manteision lluosog ar draws y nodau llesiant:

Nid oes un "ateb cywir"



ond efallai na fydddech am gael un o'r rhain heb reswm da iawn



Cafodd cyfranogwyr eu hannog hefyd i fyfrio ynghylch pwysigrwydd hanfodol "sut" y gwneir pethau, sydd wedi'i ymgorffori yn y **Pum Ffordd o Weithio** a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe wnaethant ystyried sut y byddai sicrhau integreiddio a ffocws hirdymor, cynnwys pobl y mae cynnig yn effeithio arnynt, cydweithio gydag eraill sydd â buddiant ynddo a chymryd mesurau i atal effeithiau niweidiol, pe gwnaed hynny ar yr adegau datblygu cynnar ac ar adegau hollbwysig wedi hynny, yn helpu i gynyddu cyfraniadau ar draws y nodau llesiant i'r eithaf.

Gofynnwyd i bob bwrdd ddewis un o ddau "gynnig" i helpu i ysgogi eu trafodaethau:

- a. Adeiladu ysbyty newydd.
- b. Y siwrne tuag at economi sy'n rhad ar garbon ac yn llai gwastraffus.

Er mwyn cychwyn y sgysiau, rhoddwyd deunydd cyfeirio i'r chwe bwrdd (olwyn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, copiâu o rai sleidiau, a.y.b.) a'r cwestiynau canlynol i feddlw amdanynt mewn perthynas â'u dewis cynnig:

- Ystyriwch, o'ch safbwynt polisi/sefydliadol eich hun, beth allai eich buddiant fod yn y cynnig a'r manteision, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i ganlyn yn eich tyb chi. Ychwanegwch hwy at Olwyn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y bwrdd (nodyn glynu pinc ar gyfer risg posibl, gwyrdd ar gyfer mantais bosibl/cyfle posibl).
- Trafodwch o amgylch y bwrdd, profwch a cheisiwch wella ehangder yr agweddau sydd wedi'u cynnwys ar yr Olwyn a cheisiwch "ddull optimaidd" dichonadwy o ganlyn arni â'r cynnig a allai gynyddu i'r eithaf y cyfraniadau ar draws y nodau llesiant. (Efallai y byddwch yn dymuno ystyried y sleid "Dim un 'ateb cywir'" ar y bwrdd).
- Ystyriwch sut, ac ar ba adegau, y bydddech yn disgwyl i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum ffordd o weithio gael ei chymhwyso i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau (Efallai y byddwch yn dymuno ystyried y sleid "'Beth' a 'Sut' – Gwneud y gorau o'r nodau'" ar y bwrdd).

- Ystyriwch beth mae ‘tymor hir’ yn ei olygu yng nghyd-destun y cynnig hwn a’i effeithiau posibl. Cofnodwch bwyntiau allweddol yn eich trafodaeth.
- Ystyriwch pa gyfyngiadau, rheolau, rheoliadau, prosesau, systemau, gweithdrefnau neu amodau sefydliadol/gweithredol eraill allai fod yn rhwystr i gymhwyso’r Ddeddf a chyflawni’r cynnig yn effeithiol. Rhestrwch y rhai y mae’r grŵp yn teimlo y dylid eu rhestru. Bydd y rhain yn helpu i ddarparu sail i’r gwaith y byddwn yn ei wneud yn yr ail weithdy ar “newidiadau systemig” y mae eu hangen.

Wedyn gofynnwyd i’r byrddau sut, ac ar ba adegau, y byddent yn disgwyl i’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’i phum ffordd o weithio gael eu cymhwyso, gyda’r hwylusydd eto’n nodi pwyntiau allweddol.

Er eu bod yn amrywiol ac yn eang, yn sicr fe arweiniodd y sgysiau ar y chwe bwrdd at yr ymarfer rhannu safbwyntiau cychwynnol yr oedd y gweithdy wedi’i fwriadu i’w gyflawni, ynghyd â rhai meddyliau a sylwadau diddorol a gofnodwyd. Cymerodd hwyluswyr y byrddau nodiadau ar y trafodaethau gan gofnodi casgliadau allweddol y daethpwyd iddynt. Gofynnwyd iddynt fwydo dau bwynt dysgu allweddol yn ôl o’r ymarfer.

Ar gyfer yr ail ymarfer ar “Ddangos Cynnydd”, gofynnwyd i’r cyfranogwyr ystyried yr ystod ganlynol o ddangosyddion i helpu i bwysu a mesur pa mor dda mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cael ei chymhwyso. Roedd yr offeryn a gyflwynwyd gan Anne Meikle wedi cael ei ddatblygu ar gyfer WWF Cymru gan eu hymgyngorwyr, Netherwood Sustainable Futures:

Yr offeryn a ddefnyddiom ni i ddadansoddi

ABSENNOL	• Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wedi dylanwadu ar y gweithgaredd. Mae cyfeiriadau at y nodau llesiant a’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn absennol.
TYBIANNOL	• Mae cyfeiriadau at yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy a’r Nodau Llesiant yn dybiannol , heb dystiolaeth glir eu bod wedi fframio’r gweithgaredd
NODAU YN UNIG	• Mae gweithgarwch wedi’i alinio â nodau llesiant lluosog heb unrhyw dystiolaeth bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso hefyd.
OL-FFITIO	• Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’r nodau wedi cael eu ‘ hôi-ffitio ’ i gyfiawnhau gweithgaredd, yn hytrach na’i fframio.
AMODAU	• Mae tystiolaeth bod y gweithgaredd yn creu’r amodau i eraill gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy a chynyddu eu cyfraniad at y nodau llesiant i’r eithaf.
CYLLIDOL	• Mae tystiolaeth bod y nodau llesiant a’r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael eu cymhwyso i systemau a phenderfyniadau ariannol .
AIL-FFRAMIO	• Mae tystiolaeth bod <i>gweithgaredd presennol</i> wedi cael ei ail-fframio gan ddefnyddio’r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a’r nodau llesiant
TREFNU	• Mae tystiolaeth bod <i>gweithgaredd newydd</i> yn cael ei drefnu trwy gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’r Nodau Llesiant.



Gofynnwyd i'r byrddau droi eu sylw at heriau sut i ddangos dau fath penodol o gynnydd mewn perthynas â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- a. Cynnydd tuag at ganlyniadau/cyfraniadau at y nodau.
- b. Cynnydd o ran newid y mecanweithiau, dulliau a phrosesau sydd wedi'u bwriadu i helpu i gyflawni'r canlyniadau/cyfraniadau at y nodau.

Fe archwiliodd tri o'r byrddau "a" a'r tri arall "b".

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr adnabod, ystyried a thrafod anawsterau dangos yn glir pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn eu dewis faes. Wedyn gofynnwyd iddynt gytuno ac adrodd yn ôl ar eu tair prif her ac ystyried yn fwy manwl achosion a datrysiadau posibl ar gyfer her benodol a ddewiswyd o'r casgliad flaenoriaethwyd ar y cyfan.

4.2 Yr hyn a wnaethom yng Ngweithdy Dau: Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'

Roedd Gweithdy Dau yn seiliedig ar bum her benodol ym mecanweithiau'r Llywodraeth, a oedd wedi dod i'r fei yn ystod trafodaethau yng Ngweithdy Un. Y pum maes a ddewiswyd ar gyfer sylw manylach oedd:

- Caffael
- Asesiadau o'r effeithiau
- Cyllid
- Integreiddio/cydgysylltu polisiau
- Capasiti a medrusrwydd

Eto, rhannwyd y gweithdy'n ddau ymarfer, a ragflaenwyd gan gyflwyniadau gan Anne Meikle, WWF Cymru a Gretel Leeb, Llywodraeth Cymru i grynhoi'r hyn a ddaeth o'r gweithdy blaenorol, ac ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r pum maes a ddewiswyd ar gyfer yr un presennol (gweler Atodiad 2 ar gyfer sleidiau'r cyflwyniad). Roedd y ddau ymarfer bwrdd fel a ganlyn:


1. **Gan fwrw golwg fanwl ar un o bum mecanwaith y Llywodraeth a gynigiwyd ar gyfer trafodaeth,**
 - a) beth sy'n digwydd ynddo ar hyn o bryd a beth yw'r rhwystrau i gymhwyso'r pum ffordd o weithio i gynyddu i'r eithaf y cyfraniadau at y nodau llesiant
 - b) beth yw achosion y rhwystrau a adnabuwyd a beth y mae angen iddo newid i'w goresgyn
 - c) beth y mae angen iddo ddigwydd er mwyn i'r newidiadau hynny symud yn eu blaenau?

2. Sut fyddwn ni'n cydnabod cynnydd yn y meysydd newid a adnabuwyd yn y sesiwn gyntaf – sut fyddwn ni'n ei brofi/pa dystiolaeth fydd?

Ar gyfer yr ymarfer cyntaf, roedd y cyflwyniad rhagarweiniol a'r taflenni wedi'u bwriadu i ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r pum pwnc:

- Integreiddio polisiâu – “eu cydgysylltu” ar draws y Llywodraeth.

Mae integreiddio polisiâu'n digwydd pan fo pobl sy'n gweithio mewn meysydd polisi gwahanol yn mynd ati gyda'i gilydd i archwilio'u priod fuddiannau i sicrhau nad yw eu camau gweithredu arfaethedig yn torri ar draws ei gilydd, yn gwrthdaro â'i gilydd ac yn achosi problemau i'w gilydd, yn dyblygu ymdrech ac yn dwyn costau diangen neu'n cyflawni canlyniadau sy'n tanseilio neu'n nacau ei gilydd. O'i wneud yn dda, gall ddwyn mwy o effeithiolrwydd ar bob ochr, mwy o fanteision lluosog ar draws y nodau llesiant, cyflawni arbedion costau rhoi mwy o werth am arian.



- **Asesiad o'r Effeithiau** – ystyried effeithiau'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud/wedi ei wneud

Mae asesu'r effeithiau'n rhan hanfodol o'r broses o benderfynu pa gyfeiriad polisi neu gam gweithredu i'w gymryd. Mae rhai asesiadau o'r effeithiau'n rhwymedigaeth statudol ac mae'n ofynnol i'r rhai sy'n eu cynnal ddilyn proses sydd wedi'i rhagnodi'n llym, a all deimlo fel ymarfer "ticio blychau" ond na ddylai fod yn bendant! Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried sbectrwm llawer ehangach o ystyriaethau cydgysylltiedig, ac ystyried goblygiadau posibl tueddiadau'r dyfodol.

- **Capasiti a Medrusrwydd** – Llywodraeth Cymru yn “cyd-dynnu” gyda’r holl randdeiliaid yng nghyfeiriad llesiant cenedlaethau’r dyfodol.

Mae a wnelo hyn â’r modd y mae cymhwyso’r deddfwriaeth yn llawn yn dibynnu ar y modd y mae pobl yn meddwl, yn ffurfio barnau, yn cynllunio ac yn gweithio gyda’i gilydd ac yn cyflawni mewn ffordd gydweithredol. Mae “pobl”, yma, yn golygu staff Llywodraeth Cymru, gweision cyhoeddus eraill a rhanddeiliaid o bob sector, gan gynnwys dinasyddion a grwpiau cymunedol. Pa mor dda ydym yn gwneud hyn? Beth sy’n anodd ynglŷn â gweithio yn y ffordd yma? Sut ddylem drefnu ein rhaglenni datblygu staff i helpu i sicrhau ein bod yn ei wneud yn well?

- **Cyllid** – ystyried y cwestiynau “pam”, “beth” a “sut” mewn perthynas â defnyddio ein cyllid.

Mae cyllid grant yn bodoli ar sawl ffurf yn Llywodraeth Cymru – gan amrywio o “Gymorth Grant” i Gyrff a Noddir i gyllid “craidd” neu brosiect a roddir i sefydliadau, yn flynyddol fel arfer. A yw Llywodraeth Cymru yn llywio’r broses o gymhwyso deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol trwy ei chyllid grant mor effeithiol ag y gallai?

- **Caffael** – ceisio’r effaith orau bosibl trwy newidiadau blaengar ym maes caffael yn y sector cyhoeddus.

Mae caffael yn offeryn pwerus sydd, o’i reoli’n dda dros amser, yn effeithio ar y modd y mae cyflenwyr yn meddwl a sut y mae marchnadoedd yn datblygu. Enghraifft dda o ymarfer caffael, o ran sicrhau ystod eang o fanteision ar draws y nodau llesiant, yw Rhaglen Cartrefi Cynnes – Arbed Llywodraeth Cymru sydd, ochr yn ochr â diben craidd, sef trechu tlodi tanwydd a lleihau carbon, wedi arwain at gyflawni manteision ym meysydd iechyd, addysg a hyfforddiant, cydlyniant cymunedol a datblygu economaidd lleol trwy gynorth i BBCchau.

Dim ond pedwar bwrdd oedd yn y gweithdy hwn, ac allan o’r pum testun, yr un na thrafodwyd yn benodol oedd “Cyllid”; fodd bynnag, cafodd rhai agweddau ar y testun hwnnw eu cynnwys yn fras yn y drafodaeth am “Gaffael”.

Ar gyfer yr ail ymarfer, gofynnwyd i’r byrddau droi eu sylw at sut y gellid dangos ac adnabod cynnydd amlwg yn y meysydd a drafodwyd yn y gweithdy cyntaf. Gan ganolbwytio’n arbennig ar eu casgliadau cynharach ynglŷn â’r hyn y mae angen iddo ddiwydd er mwyn i newidiadau symud yn eu blaenau, **bwriodd pob bwrdd olwg fwy manwl ar rwystrau a datrysiadau posibl i wneud cynnydd adnabyddadwy** yn y maes yr oeddent wedi bod yn ei drafod. Roedd rhai o’r datrysiadau y meddylion nhw amdanynt yn gamau syml, weithiau’n fater o fynd ati’n syml i atgyfnerthu neu fireinio mesurau sydd eisoes ar waith yn Llywodraeth Cymru; roedd datrysiadau posibl eraill yn ymwneud yn fwy â’r tymor canolig neu’r tymor hir ac yn fwy strategol o ran eu natur, ac mewn rhai achosion yn fwy “radical”.

Yn ychwanegol at y nodiadau manwl a gymerwyd o’u trafodaethau, bywdodd pob bwrdd ddau bwynt allweddol yn ôl ar ddiwedd y sesiwn.

4.3 Yr hyn a wnaethom yng Ngweithdy Tri: Rhoi'r Ddeddf ar waith...! Astudiaeth fanwl mewn maes sy'n cael effaith fawr: "Aer Glân i Gymru"

Ar gyfer Gweithdy Tri, cawsom gwmni aelodau o'r Gangen Ansawdd Aer sydd, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet i ddull "Llywodraeth gyfan" wedi'i integreiddio'n gryf o fynd ar drywydd Aer Glân yng Nghymru, yn awyddus i fod yn batrwm enghreifftiol o ran y modd y maent yn cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Unwaith eto, rhannwyd y gweithdy'n ddau ymarfer, a ragflaenwyd gan gyflwyniadau gan Anne Meikle, WWF Cymru a Gretel Leeb, Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2 am sleidiau'r cyflwyniadau):

1. Ffocws ar asesiad integredig o'r effeithiau wrth ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru
2. Ffocws ar gynnwys pobl wrth ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru

Ar gyfer y ddwy sesiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried drwy'r amser **sut y gallwn ddangos ac adnabod cynnydd a newid cadarnhaol**, h.y. sut y bydd pob agwedd yn edrych ac yn teimlo pan ydym yn eu gwneud yn dda.

Ar ddechrau'r gweithdy, rhoddwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir i'r cyfranogwyr a chwestiynau i'w hystyried mewn perthynas ag Ansawdd Aer yng Nghymru a chafwyd trafodaeth gychwynol am y pwnc cyn i'r byrddau droi eu sylw at yr ymarfer cyntaf:

Ansawdd Aer yng Nghymru – rhywfaint o wybodaeth gefndir a phethau i'w hystyried...

Y sefyllfa

- Mae ansawdd aer yng Nghymru'n dda ar y cyfan.
- Dau o'r llygryddion allweddol yr ydym yn poeni amdanynt yw: deunydd gronynnol a nitrogen deuocsid (NO₂).
- Caiff gwelliannau eu hysgogi'n bennaf gan fesurau rheoli ar allyriadau o bwerdai, diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth, trafndiaeth a tharddleuedd domestig.
- Mae angen gwneud mwy i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer lle mae'n digwydd.
- Gall ansawdd aer gwael achosi problemau anadlol a byrhau rhychwantau oes.
- Mae hefyd yn cyfrannu at asideoedd pridd a dŵr wyneb, mae'n niweidio cynefinoedd sensitif a gall niweidio llystyfiant trwy ei wneud yn agored i osôn.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol: “Ffyniant i Bawb” yn cynnwys yr ymrwymiad:

Byddwn yn lleihau allyriadau a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer, drwy gynllunio, seilwaith, rheoleiddio a chyfathrebu am iechyd.

Deddfwriaeth – cyfundrefnau gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol

- Mae gwelliannau ar y lefel genedlaethol wedi cael eu hysgogi gan Gyfarwydddebau Ewropeaidd.
- Mae llygredd aer yn broblem leol, ranbarthol a rhyngwladol
 - Caiff polisi ansawdd aer yn y DU ei drefnu gan ddeddfwriaeth a pholisïau cartref, Ewropeaidd a rhyngwladol.
 - Er bod ansawdd aer yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth y DU yn sicrhau, yn genedlaethol, bod polisïau'n bodloni cytundebau rhyngwladol ac Ewropeaidd.
- Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflawni dyletswyddau i fynd i'r afael â llygredd a bennwyd dan ddeddfwriaeth gartref.

Camau Gweithredu Diweddar gan Lywodraeth Cymru

- Fe wnaethom gysylltiad â NO₂ yn ddangosydd cenedlaethol: a gymhwysir at ddibenion mesur cynnydd tuag gyrraedd nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Fe wnaethom reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried adolygiadau awdurdodau lleol o ansawdd aer wrth baratoi asesiadau o lesiant lleol.
- Rydym wedi cyhoeddi canllawiau polisi newydd ar Reoli Ansawdd Aer Lleol sy'n seiliedig ar ystyriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswyddau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys aer.

Rhai pethau yn rhagolwg Llywodraeth Cymru...

Cynllun Aer Glân i Gymru:

- Rhaglen waith drawslywodraethol, draws-sectoraidd.
- Cydweithio i gyflawni aer glanach, cynyddu canlyniadau iechyd i'r eithaf, gwarchod ein hadnoddau naturiol a chyflawni manteision lluosog.

Fframwaith Parthau Aer Glân:

- Sicrhau bod Parthau Aer Glân yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol gan Awdurdodau Lleol.
- Cyflymu camau gweithredu ar NO₂ a gronynnau mewn ardaloedd trefol.

Canolfan Asesu a Monitro Genedlaethol

- I gasglu a dadansoddi data ynghylch llygredd aer a ffactorau cysylltiedig (e.e. iechyd, amddifadedd, seilwaith gwyrdd a.y.b.).
- Gwella prosesau penderfynu llywodraeth leol a chenedlaethol a'i gwneud yn bosibl cymryd camau sydd wedi'u targedu'n well i gyflawni canlyniadau iechyd.

Polisi cynllunio

- Bydd Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei wella i roi arweiniad eglur i awdurdodau cynllunio ynghylch ansawdd aer.

Rheoli Ansawdd Aer Lleol

- Gwelliannau i'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn adrodd ar faterion ansawdd aer yn eu hardaloedd.
- Templedi adrodd symlach newydd.
- Templed newydd ar gyfer cynllun gweithredu.
- Bydd camau gweithredu'n gydlynol â Chynllun Aer Glân Cymru.

Canllawiau i Staff y GIG

- Canllawiau newydd ynghylch ansawdd aer i weithwyr iechyd proffesiynol yn GIG Cymru o ran y rôl y gallant ei chyflawni i atal effeithiau niweidiol llygredd aer ar iechyd.

Rhai pethau y gallai cymhwyso'r pum ffordd o weithio'n effeithiol ein helpu i ateb...


- Beth arall all gyflawni effeithiau cadarnhaol?
- Ble arall, a sut, ellir cyflawni effaith gadarnhaol?
- Pwy all gyfrannu a sut?
- Pa fanteision lluosog allwn ni eu cael o feddwl mewn ffordd integredig am gamau gweithredu i wella ansawdd ein haer?
- Sut allwn ni fod fwyaf effeithiol o ran atal unrhyw effeithiau negyddol hirdymor o ganlyniad i'n gweithredoedd?
- Sut allwn ni gael y cydymdrech gorau i fynd i'r afael â'r broblem trwy gynnwys pobl?

Ar gyfer yr ymarfer cyntaf ar asesiad integredig o'r effeithiau, trafodwyd ystyr yr ymadrodd yng nghyd-destun datblygu Cynllun Aer Glân i Gymru, gan nodi y byddai'n golygu deall effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl camau gweithredu sy'n cael eu hystyried ym mhob maes polisi, ar draws yr holl nodau llesiant.

Atgoffwyd cyfranogwyr ynghylch negeseuon allweddol o'u gweithdy diwethaf:

- Mae angen inni ddatgyfrinio'r prosesau penderfynu 'blwch du'.
- Mae angen deialog fwy agored – i helpu'r broses integreiddio.

- Mwy o naratif a hwnnw'n naratif gwell ar glawr a mwy o dryloywder o ran y rhesymeg.
- Prosesau penderfynu gweinidogion eu hunain; ond mae angen iddynt gael mwy o gyfleoedd y meddylwyd yn ofalus amdanynt ar gyfer camau gweithredu integredig ac ar gyfer cydweithio.
- Mae angen gwaith cwmpasu a pharatoi trylwyr ar ei gyfer.
- Mae "Ffyniant i Bawb" yn "agor y drysau" – mae angen i swyddogion fynd i mewn, ac "archwilio'r tŷ cyfan" yn drylwyr,
- ...a meddwl am ei ddyfodol...!



Cafodd hwyluswyr rai cwestiynau posibl i helpu i ysgogi trafodaeth, os oedd angen:

- Sut fydd dealltwriaeth go iawn am bwysigrwydd asesu'r effeithiau, a'r newid angenrheidiol mewn ymddygiad o ran y ffordd y caiff ei wneud, yn edrych?
- Sut fydd integreiddio asesiadau o'r effeithiau ar draws yr holl feysydd polisi'n edrych?
- Sut ddylai Uwch Swyddogion Cyfrifol Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni gwaith ddod â chysondeb a threfniadau gweithio trawsadrannol?
- Pwy sy'n craffu ar asesiadau o'r effeithiau a sut y maent yn cael eu herio?
- Sut mae proses benderfynu fwy agored a thryloyw'n edrych?
- Beth yw'r ffordd orau o'i chyfleu'n eang ac yn eglur?

Gofynnwyd i'r hwyluswyr drefnu bod nodiadau manwl yn cael eu cymryd yn ystod y drafodaeth ac i sicrhau bod eu grŵp yn dewis tri chyfraniad wedi'u blaenoriaethu i fwydo'n ôl ar ddiwedd y sesiwn.

Ar gyfer yr ail ymarfer ar gynnwys pobl, cafodd y cyfranogwyr eu hatgoffa am rai negeseuon pwysig o'u gweithdy blaenorol:

- Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o agor meddyliau, datblygu meddwl ochrol a thorri hen arferion.
- Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig.
- Datblygu'r gallu i gyfleu ffordd o feddwl am bolisïau trwy naratif.
- Creu deialog agored a dysgu oddi wrth ddinasyddion a rhanddeiliaid.
- Dangos ein bod wedi gwneud hynny...
- Mae angen llai o bolisïau, a'r rheiny wedi'u hintegreiddio'n fwy - ac wedi'u llunio ar y cyd.

Cynigiwyd nifer o gwestiynau posibl hefyd i helpu'r hwyluswyr i ysgogi trafodaeth ynghylch sut y dylai "cynllun cynnwys pobl hollgynhwysol" edrych wrth greu Cynllun Aer Glân i Gymru:

- Sut mae gweithgarwch cynnwys effeithiol, parhaus, hirdymor yn edrych?
- Pwy ddylem eu cynnwys - pryd a sut?
- Sut allwn ddefnyddio cymysgedd o ddulliau i gynnwys pobl wahanol neu amrediadau gwahanol o bobl ar adegau gwahanol?
- Sut all canlyniadau a phenderfyniadau interim gael eu cyfleu yn eang ac yn eglur.
- Sut mae sicrhau bod pobl yn dal i fod yn gefnogol?

Eto, gofynnwyd i'r hwyluswyr drefnu bod nodiadau manwl yn cael eu cymryd a sicrhau bod eu grŵp yn dewis tri chyfraniad wedi'u blaenoriaethu i fwydo'n ôl ar ddiwedd y sesiwn.

Peth adborth gan y cyfranogwyr ar y trafodaethau yn y gweithdai

Ar ddiwedd Gweithdy Dau, fe wnaeth **Alan Netherwood** (ymgyngorydd WWF) fwydo'i sylwadau ei hun yn ôl ar y diwrnod, gan bwysleisio'r canlynol:

- Pwysigrwydd bod yn agored gyda chyfnewid a chraffu parhaus i sicrhau prosesau effeithlon/cost-effeithlon ac amser-effeithlon.
- Pwysigrwydd bod prosesau meddwl yn dryloyw - gan ddangos y dull o weithio.
- Defnyddioldeb posibl paneli dinasyddion - e.e. ar gyfer cyllidebu cyfranogol.
- Mae arfer da'n digwydd mewn mannau - mae angen inni sicrhau mai dyna yw'r norm.
- Mae angen lle a chaniatâd yn Llywodraeth Cymru - ymyrryd yn gorfforaethol.
- Mae angen inni ystyried yr ysgogiadau mawr a fydd yn gwneud gwahaniaeth.
- Parodrwydd gwirioneddol gan bobl i gydweithio i geisio gwneud pethau'n dda.

Fe wnaeth cyfranogwyr fwydo'r canlynol yn ôl hefyd:

- Gall y Llywodraeth a'r trydydd sector gyd-dynnu! Mae gwybodaeth a deialog wedi bod yn agored iawn ac mae gobaith ar gyfer y dyfodol!
- Mae'n bwysig cydnabod yr hyn sydd eisoes yn dda.
- Ailadrodd yr ymarfer hwn gyda'r sector preifat – dylai adrannau ystyried sut y maent yn gweithio gyda'r sector preifat.
- Diolch am y gweithdai. Maent wedi bod yn adnodd cyfoethog ac wedi rhoi'r cyfle i rannu dyheadau cyffredin.

Copiâu o sleidiau'r gweithdai:

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gweithdai Blwyddyn Newydd 2018
Gweithdy Un:

*Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei
chymhwyso -
sut i ddangos cynnydd....?*

Y cyntaf o dri gweithdy cynyddrannol....

1. Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso – sut i ddangos cynnydd.
2. Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'.
3. Astudiaeth fanwl mewn maes sy'n cael effaith fawr: "Aer Glân i Gymru".

Yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni....

- Dealltwriaeth well rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid am safbwyntiau ynglŷn â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phrofiadau o wneud hynny.
- Dealltwriaeth am y disgwyliadau ar gyfer cyflawni effeithiol ar lefelau'r "Llywodraeth gyfan" a rhaglenni / prosiectau.
- Meysydd yr adnabuwyd arfer da ynddynt a meysydd ar gyfer newid.
- Camau nesaf y cytunwyd arnynt mewn meysydd ar gyfer gwella.

Tair egwyddor i arwain ein trafodaethau....

- Ymrwymiad ar y cyd i ddiben cyffredin deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Diddordeb ym mhob safbwynt, gan fod â meddwl agored a dangos parch.
- Ysbryd hyblyg, creadigol a chydgyhyrchiol.

DISGWYLIADAU

- Datblygu cynaliadwy – Mudiad byd-eang
- Mae ymrwymadau arloesol yn arwain at...
- DDISGWYLIADAU UCHEL ynglŷn â:
 - Newid mewn dull a chanlyniadau
 - Graddfa a chyflymder
 - Arweinyddiaeth

Trafodaeth dau gam:

- **Ein dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso** – gan gynnwys sylw i bwysigrwydd cyfrannu at y nodau cydgyssylltiedig, pam na wnaiff "ticio blychau" mo'r tro a phwysigrwydd yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.
- **Dangos cynnydd** – Archwilio her dangos cynnydd ar bob lefel ac mewn agweddau lluosog ar wneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni.

Rhai pethau i'w hystyried....

Pam fod y deddfwriaeth yn her inni i gyd....

- Mae'n berthnasol i'r **pethau strategol** ar lefel uchel iawn yr ydym yn penderfynu arnynt ac yn eu cynllunio,
-ac i fanylion **penderfyniadau a chamau gweithredu llai** – sut yr ydym yn cyflawni "ar lawr gwlad",
-ac i **benderfyniadau a chamau gweithredu ar bob lefel** sydd rhwng y ddau yna;
- Felly rhaid **gweld yn argyhoeddiadol ei bod yn treiddio** i'r ffordd y maent yn meddwl ac yn gweithredu **bob amser ac ar bob lefel**.




Sut fyddwn ni'n gwybod bod hyn yn digwydd fel y dylai?

Pam fod y ddeddfwriaeth yn her inni i gyd....

- Mae'n ceisio gweithredu integredig a manteision lluosog – gan wthio yn erbyn ymddygiad seilo a all ddod o ganolbwyntio ar fuddiannau unigol.
- Ni fydd cymhwyso'i gofynion byth yn arwain at un "ateb cywir".

? *Sut allwn ni i gyd fabwysiadu'r meddylfryd sy'n ymwneud â chyflawni integredig wrth inni fynd ar drywydd ein hamcanion penodol amrywiol?*

Nid oes un "ateb cywir"



....ond efallai na fydddech am gael un o'r rhain heb reswm da iawn....



Profiad rhanddeiliaid

- CYNLLUNIO GAN LYWODRAETH CYMRU: ARGRAFFIADAU
- ANGHYSONDEB
 - Mae angen adeiladu ar arfer da
 - Effaith ar rhanddeiliaid
 - Effaith ar gyrff cyhoeddus


Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

- Cynyddu'r cyfraniad at y Nodau i'r eithaf
- Integreiddio
- Tymor hir – beth yw hyn? A yw'n cynnwys cenedlaethau'r dyfodol?
- Cynnwys

Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio yn ganolog i'r ddeddfwriaeth.

Mae sut yr ydym yn gwneud pethau'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni.

1.10 Cynyddu i'r Eithaf




Sesiwn Dau "Dangos Cynnydd"

Dau fath o gynnydd

- Dangos Effaith
- Dangos newid mewn mecanweithiau, dulliau a phrosesau sydd wedi'i fwriadu i gyflawni effaith

Yr offeryn a ddefnyddiom ni i ddadansoddi



Dangos ein dull o weithio....

- Sut i ddangos bod cymhysio parhaus yn digwydd ar gymaint o lefelau, pan nad oes un ateb cywir, nac felly un canlyniad "adeg mewn amser"?
- Mae angen inni ddangos ein bod wedi bod yn meddwl yn eang, wedi bod yn flaengar, yn gynhwysol ac yn dryloyw yn ein rhesymeg.

Dangos ein dull o weithio....

Pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud a chmau gweithredu'n cael eu cymryd, bydd wastad risg y ceir peth anghydnawsedd rhwng buddiannau – ond

- *po ehangaf a mwyaf blaengar fo'r ystyriaeth,*
- *po fwyaf o gynnwys a chydweithio fydd yn digwydd*
- *po fwyaf eglur fydd y rhesymeg, gan gynnwys achosion sylfaenol problemau yr ydym yn ceisio'u hatal,*

po orau a mwyaf cynaliadwy fydd y canlyniadau.

Dangos cynnydd

A yw cynnydd wir yn rhywbeth y gallwn wastad ei "fesur"....?
Sut arall allwn ni ei ddangos....?

Y pethau yr ydym yn dewis eu cyfrif.....



Pa dybiaethau allwn ni fod yn eu gwneud ynglŷn â "gwerth" y pethau mawr, disglair, "amlwg" yn hytrach na'r pethau bach, dilewyrch yr olwg nad ydym yn sylwi arnynt....?

Dangos cynnydd yn y pethau na allwn ni eu "cyfrif"

Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o roi cyfrif agored, credadwy, digon manwl o'n dull o weithio a'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud wrth inni gymhysio'r Ddeddf.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gweithdai Blwyddyn Newydd 2018

Gweithdy Dau:

Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'.

Yr ail o'r gweithdai cynyddrannol....

1. Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso – sut i ddangos cynnydd.
2. Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'.
3. Astudiaeth fanwl mewn maes sy'n cael effaith fawr: "Aer Glân i Gymru".

Yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni....

- Dealltwriaeth well rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid am safbwyntiau ynglŷn â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phrofiadau o wneud hynny.
- Dealltwriaeth am y disgwyliadau ar gyfer cyflawni effeithiol ar lefelau'r "Llywodraeth gyfan" a rhaglenni / prosiectau.
- Meysydd yr adnabuwyd arfer da ynddynt a meysydd ar gyfer newid.
- Camau nesaf y cytunwyd arnynt mewn meysydd ar gyfer gwella.

Tair egwyddor i arwain ein trafodaethau....

- Ymrwymiad ar y cyd i ddiben cyffredin deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Diddordeb ym mhob safbwynt, gan fod â meddwl agored a dangos parch.
- Ysbryd hyblyg, creadigol a chydgyhyrchiol.

Crynodeb o'r Cynnydd hyd yma

- GWEITHDY 1
Disgwyliadau, profiad materion
- Gweithdy 2
Diben
– Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – Sut i greu ymateb 'Llywodraeth gyfan'

CYNYDDU I'R EITHAF Y CYFRANIAD AT BOB UN O'R NODAU INTEGRIDDIO

- Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd a beth sy'n ein hatal?
Integreiddio / cydgysylltu polisiau
- Mae integreiddio'n galw am asesu'r effeithiau – yn rhai cadarnhaol a negyddol
Asesu'r effeithiau

CYNNWYS POBL DROS Y TYMOR HIR

- Pa mor hir yw 'hir'?
Caffael a chyllid
- Cynnwys Pobl: Sut, pryd, pwy a beth yw'r effaith?
Capasiti a medrusrwydd

Y drafodaeth mewn dau gam heddiw:

1. **Mecanweithiau'r Llywodraeth**– Bwrw golwg fanylach, o safbwynt y pum ffordd o weithio, ar bum agwedd bwysig ar "fecanwaith" y Llywodraeth:
 - *Integreiddio polisiau* – "eu cydgysylltu" ar draws y Llywodraeth
 - *Asesu'r effeithiau* – ystyried effeithiau'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud / wedi ei wneud
 - *Capasiti a medrusrwydd* – sut yr ydym yn helpu'r holl swyddogion i "gyd-dynnu" yng nghyfeiriad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut y gall cynnwys pobl helpu....
 - *Cyllid* – ystyried y cwestiynau "pam", "beth" a "sut" mewn perthynas â defnyddio ein cyllid
 - *Caffael* – ceisio'r effaith orau bosibl trwy newidiadau blaengar ym maes caffael yn y sector cyhoeddus.
2. **Dangos cynnydd**– Canfod sut orau i ddangos ac adnabod cynnydd a newid cadarnhaol ym mhob un o'r meysydd hyn.

Integreiddio polisiâu – “eu cyd-gysylltu” ar draws y Llywodraeth

- Mae llawer i fod yn ymwybodol ohono pan ydym yn ceisio cydgyssylltu ein polisiâu...
- 144 o Isadrannau a thua 500 o Ganghennau yn Llywodraeth Cymru – anaml y mae'r polisiâu y maent yn gweithio arnynt yn syml yn “dechrau”
- Ymwybyddiaeth ar y cyd, trosolwg a chydgyssylltu corfforaethol – her barhaus
- Cyllidebu strategol, cynllunio busnes, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu
- Mae ffordd newydd o weithio'n dechrau dod i'r amlwg – dulliau gwahanol o ryngweithio ar draws adrannau
- Bydd ein trydydd gweithdy ar Ansawdd Aer yn ategu un o'r rhain....

Asesu'r Effeithiau – Ystyried effeithiau'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud / wedi ei wneud

- **Casgliad traddodiadol o brosesau ar wahân** – llawer i gyflawni rhwymedigaethau statudol: *Cydraddoldeb; Hawliau plant; Y Gymraeg; Bioamrywiaeth; Diogelu at y Dyfodol; Preifatrwydd a.y.b.*
- **Newidiadau ar y gweill** i'n dull o gynnal asesiadau o'r effeithiau – eu dwyn ynghyd dan naratif y gellir ei wirio ar gymhwysu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a chyfraniad at y Nodau.
- Mae angen i Asesiadau o'r Effeithiau gynnwys ystyriaeth ddeallus i **Dueddiadau'r Dyfodol**.
- Mae asesu'r effeithiau'n sefydlu sefyllfa **“syflaenol”** y gellir gwirio yn ei herbyn wrth i bolisi gael ei weithredu, wrth i gynnydd tuag at ganlyniadau ddatblygu ac wrth i ganlyniadau ddod i'r amlwg.
- Ond, wrth i bethau ddatblygu, ac wrth i dueddiadau ac amodau newid, dylai hefyd gael ei **gadw'n fyw a chael ei adolygu'n gyson**....

Capasiti a Medrusrwydd

Swyddogion Llywodraeth Cymru yn “cyd-dynnu” â'r holl randdeiliaid yng nghyfeiriad llesiant cenedlaethau'r dyfodol


- **Y gwaith Diogelu at y Dyfodol yn Llywodraeth Cymru:**
“...ystyried sut y gallwn feithrin diwylliant cynhwysol, â pherfformiad uchel sy'n wirioneddol gydweithredol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau – gan adlewyrchu ein hymrwymiad i Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol”.
- **Mae arweinyddiaeth a rheoli perfformiad yn allweddol:**
“Byddwn yn bwrw golwg o'r newydd ar ein rhaglenni dysgu a datblygu.... Byddwn hefyd yn ystyried sut i wella ein trefniadau rheoli perfformiad a'n harfarniadau”.
- **Mae gan Lywodraeth Cymru lawer i'w newid yn ei ddull mewnol o weithio, ac mae arnom angen math newydd o gynnwys a chydweithio i fod yn effeithiol.**
- **Mae “cynnwys” yn fwy na sgwrs neu ymgynghoriad...** Mae'n golygu bod yn agored i ffordd newydd o harnesio ymrwymiad, egni a chymau gweithredu ar bob ochr a chon yr holl bartion – diben cyffredin a chydymddiriedaeth – mae gan Lywodraeth Cymru ffordd bell i fynd...

Cyllid

Y cwestiynau “pam”, “beth” a “sut” ynglŷn â'n cyllid grant

- **Grantiau a chaffael**– Cyfraith Caffael Cyhoeddus a Chymorth y Wladwriaeth
- **Cyllid grant – Diben craidd a manteision lluosog**
- Gwaith yn yr arfaeth i fwrw golwg fanylach ar **fanylebau, telerau ac amodau, llythyrau cylch gwaith** a.y.b. a phrofiadau derbynyddion grantiau
- **Grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd** – enghraifft bosibl o arfer da...

Pwysigrwydd manteision lluosog



Caffael

Ceisio'r effaith orau bosibl trwy newidiadau blaengar ym maes caffael yn y sector cyhoeddus.

Sut y mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso yn y weithred o gaffael ei hun

- datblygu o darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prynwyr o'r gymuned gyflenwi
- datblygu offer a chanllawiau i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru gymhwyso'r Ddeddf i weithgarwch Caffael

Yr effeithiau cadarnhaol y gellir eu cyflawni trwy weithgarwch wedi'i contractio:


- Gofyn i rai contractwyr ddangos sut y mae eu cynigion wedi cynnwys ystyriaeth eang i'r Nodau a'r pum ffordd o weithio (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol...!)
- Mae cydweithwyr ym maes caffael yn gweithio i ddatblygu dull effeithiol a chyson o gymhwyso'r Ddeddf gan ddefnyddio cyfres o gynlluniau peilot cydweithredol – gan gynnwys ar y canlynol
 - lleihau deunydd pacio a/neu blastigau
 - materion sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau
 - ymwneud cymddol gan gyflenwyr bwyd o Gymru â chadwynau cyflenwi
 - caffael bwyd yn y sector cyhoeddus
 - Swyddi Gwell yn Nes at Adref – ar draws ystod o ymyriadau palisi
 - dull economi gylchol o gaffael dadrefn swyddfa (ar y cyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru)

Sesiwn Dau “Dangos Cynnydd”

Dau fath o gynnydd

- Dangos Effaith
- Dangos newid mewn mecanweithiau, dulliau a phrosesau sydd wedi'i fwrwriadu i gyflawni effaith

Yr offeryn a ddefnyddiomi ni i ddadansoddi



Dangos Effaith- Gweithdy 1

- Yn gymhleth ac yn gryn her ond yn hanfodol
- Yn gweithredu fel fframwaith
Y dystiolaeth gywir o newid
Dangos cynnydd
Effaith ar y cyd

Adnabod neu ddangos cynnydd ym mecanweithiau'r Llywodraeth

- Newid mewn mecanweithiau, dulliau a phrosesau – sydd wedi'i fwriadu i gyflawni effaith
- Sut fydd newid yn edrych yn y meysydd yr ydym newydd eu trafod?
- Sut beth fydd y profiad o weithio gyda Llywodraeth Cymru i randdeiliaid, cyd-gyflawnwyr, derbynyddion grantiau, contractwyr a.y.b.?
- Pa gamau y mae angen inni eu cymryd i gyrraedd yno....

Drosodd at Mandy.....

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gweithdai Blwyddyn Newydd 2018
Gweithdy Tri:

***Rhoi'r Ddeddf ar waith.....!
Astudiaeth fanwl ar "Aer Glân i Gymru"***

Y trydydd o dri gweithdy cynyddrannol....

1. Dealltwriaeth am y Ddeddf a sut y dylid ei chymhwyso – sut i ddangos cynnydd.
2. Ysgogi ymatebion systemig gweithredol i'r Ddeddf – creu ymateb 'Llywodraeth gyfan'.
3. Astudiaeth fanwl mewn maes sy'n cael effaith fawr: "Aer Glân i Gymru".

Yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni....

- Dealltwriaeth well rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid am safbwyntiau ynglŷn â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phrofiadau o wneud hynny.
- Dealltwriaeth am y disgwyliadau ar gyfer cyflawni effeithiol ar lefelau'r "Llywodraeth gyfan" a rhaglenni / prosiectau.
- Meysydd yr adnabuwyd arfer da ynddynt a meysydd ar gyfer newid.
- Camau nesaf y cytunwyd arnynt mewn meysydd ar gyfer gwella.

Tair egwyddor i arwain ein trafodaethau

- Ymrwymiad ar y cyd i ddiben cyffredin deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Diddordeb ym mhob safbwynt, gan fod â meddwl agored a dangos parch.
- Ysbryd hyblyg, creadigol a chydgyhyrchiol.

THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG

FFYRDD O WEITHIO

- Tymor hir
- Cynnwys
- Integreiddio

THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG

Mecanweithiau'r Llywodraeth

- Asesiadau o'r effeithiau
- Caffael
- Medrusrwydd a chapasiti

Y cynllun ar gyfer heddiw:

1. Ffocws ar **asesiad integredig o'r effeithiau** wrth ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru
2. Ffocws ar **gynnwys pobl** wrth ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru

Ar bob adeg, ystyried sut y byddwn yn dangos ac yn adnabod cynnydd a newid cadarnhaol yn y ddau faes yma: sut fyddant yn edrych ac yn teimlo pan ydym yn eu gwneud yn dda

Ansawdd aer – gosod y cywair....

- Mae ansawdd aer yng Nghymru'n dda ar y cyfan.
- Dau o'r llygryddion allweddol yr ydym yn poeni amdanynt yw: deunydd gronynnol a nitrogen deuocsid (NO₂).
- Caiff gwelliannau eu hysgogi'n bennaf gan fesurau rheoli ar allyriadau o bwerdai, diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth, trafniadaeth a tharddleodd domestig.
- Mae angen gwneud mwy i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer lle mae'n digwydd.
- Gall achosi problemau anadlol a byrhau rhychwantau oes.
- Mae'n cyfrannu at asideiddio pridd a dŵr wyneb, mae'n niweidio cynefinoedd sensitif a gall niweidio llystyfiant trwy ei wneud yn agored i osôn.



Mae gweithredu i wella ansawdd aer yng Nghymru'n flaenoriaeth allweddol:
Byddwn yn lleihau allyriadau a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer, drwy gynllunio, seilwaith, rheoleiddio a chyfathrebu am iechyd.

Rhai cwestiynau cyflym i'r Tîm Ansawdd Aer.....

Sesiwn Un Asesiad Integredig o'r Effeithiau:


Deall effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar draws yr holl Nodau, o ganlyniad i gamau gweithredu sy'n cael eu hystyried ym mhob maes polisi, wrth inni gydweithio i gyflawni Cynllun Aer Glân.

Rhai negeseuon o'ch gweithdy diwethaf....

- Mae angen i asesiadau o'r effeithiau gael eu cynnal yn wahanol – yn fwy holistaidd;
- Dylent ystyried manteision lluosog ar draws y Saith Nod;
- Mae ar bobl angen yr amser a'r adnoddau i'w gwneud yn drylwyr ac yn gynhwysfawr, gan gynnwys pobl yn eang
- Mae eu hangen ar wahanol adegau wrth ddatblygu polisiau a gwaith cyflawni;
- Mae angen inni gofnodi asesiadau o'r effeithiau mewn naratif clir sy'n gallu dal dŵr pan gaiff ei herio ac y gellir gwirio yn ei erbyn yn y dyfodol.

Maes negeseuon am integreiddio'n berthnasol i asesu'r effeithiau.....

- Sut mae datgyfrinio'r prosesau penderfynu 'blwch du'?
- Mae angen deialog fwy agored – i helpu'r broses integreiddio.
- Mwy o naratif a hwnnw'n naratif gwell ar glawr a mwy o dryloywder o ran y rhesymeg.
- Prosesau penderfynu gweinidogion eu hunain; ond mae angen iddynt gael mwy o gyfleoedd y meddylwyd yn ofalus amdanynt ar gyfer camau gweithredu integredig ac ar gyfer cydweithio.
- Mae angen gwaith cwmpasu a pharatoi trylwyr ar ei gyfer.
- Mae *Ffyniant i Bawb* yn "agor y drysau" – mae angen i swyddogion fynd i mewn, ac "archwilio'r tŷ cyfan" yn drylwyr,
- a meddwl am ei ddyfodol....!



Sut fydd effaith dda'n edrych wrth greu Cynllun Aer Glân?

- Sut fydd newid mewn ymddygiad a dealltwriaeth go iawn o bwysigrwydd asesu'r effeithiau'n edrych?
- Sut fydd integreiddio asesiadau o'r effeithiau ar draws yr holl feysydd polisi'n edrych?
- Sut fydd Uwch Swyddogion Cyfrifol yn dod â chysondeb a threfniadau gweithio trawsadrannol?
- Pwy fydd yn craffu ar asesiadau o'r effeithiau a sut fyddant yn cael eu herio?
- Sut mae "proses benderfynu fwy agored a thryloyw" yn edrych?
- Sut ddylid ei chyfleu'n eang ac yn eglur?

Sesiwn Dau Cynnwys Pobl:

Sut i feithrin a chynnal, deialog gynhyrchiol ac ymdrech parhaus, trwy gynnwys pobl yn barhaus-pan fo adnoddau'n gyfyngedig.....

Negeseuon o'ch gweithdy diwethaf

- Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o agor meddyliau, datblygu meddwl ochrol a thorri hen arferion.
- Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig.
- Datblygu'r gallu i gyfleu ffordd o feddwl am bolisiau trwy naratif;
- Creu deialog agored a dysgu oddi wrth ddinasyddion a rhanddeiliaid
- Dangos ein bod wedi gwneud hynny....
- Mae angen llai o bolisiau, a'r rheiny wedi'u hintegreiddio'n fwy – ac wedi'u llunio ar y cyd.

Sut ddylai cynllun cynnwys pobl hollgynhwysol edrych wrth greu *Cynllun Aer Glân i Gymru?*

- Sut mae gweithgarwch cynnwys effeithiol, parhaus, hirdymor yn edrych?
- Pwy ddylem eu cynnwys – pryd a sut?
- Sut allwn ddefnyddio cymysgedd o ddulliau i gynnwys pobl wahanol neu amrediadau gwahanol o bobl ar adegau gwahanol?
- Sut all canlyniadau a phenderfyniadau interim gael eu cyfleu yn eang ac yn eglur
- Sut mae sicrhau bod pobl yn dal i fod yn gefnogol?

Atodiad 2 – Cyfranogwyr yn y Gweithdai

Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig	Rhodri Asby
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Ansawdd Aer	Andrew Carter
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Pennaeth Datgarboneiddio	Lucy Corfield
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch	Dickie Davis
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Cynghorydd Polisi Tueddiadau'r Dyfodol	Rhydian Davies
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Ynni a'r Amgylchedd	Helen Donovan
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr - Trafnidiaeth	Andy Falleyn
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Y Môr a Physgodfeydd, Ymgysyllgu a Chyfathrebu	Rebecca Gorman
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth	Rhodri Griffiths
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Pennaeth Amaeth a Datblygu Cynaliadwy	Gary Haggaty
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Entrepreneuriaeth a Chyflawni	Duncan Hamer
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael, Gwerth Cymru	Jonathan Hopkins
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Eiddo	Tim Howard
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, y Rhaglen Datblygu Sefydliadol a Newid	Marcella Maxwell
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Pennaeth yr Is-adran Taliadau Gwledig	Hugh Morgan
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Pennaeth y Gangen Gwastraff	Andy Rees
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Cyllid a Gweithrediadau	Alyson Rogers
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Cyfarwyddwr Chwaraeon	David Rosser
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata	Mari Stevens
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Rheolwr Adrodd ar Dueddiadau'r Dyfodol	David S Thomas

Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Ansawdd Aer	Jamie Thomas
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Gyfarwyddwr, Pobl a'r Amgylchedd	Terri Thomas
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Busnes a'r Rhanbarthau	Emma Watkins
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Dirprwy Bennaeth Amaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu	Jon Westlake
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	Uwch-reolwr Perfformiad Corfforaethol ac Adolygu	Max White
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	Uwch-reolwr Cymunedau	Aaron Fortt
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	Dirprwy Brif Arolygydd AGGCC	David Francis
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar	Owain Lloyd
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	Addysg	Debbie Tynen
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	Chris Brereton
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Pennaeth Adolygu Asesiadau Effaith	Adrian Davies
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio	Matthew Hall
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Pennaeth Strategaeth Iechyd	Matthew Jenkins
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd	Chris Jones
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol	Steven Marshall
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Iechyd y Boblogaeth	Irfon Rees
Gwasanaethau Cyfreithiol		Alison Henders-Green
Gwasanaethau Cyfreithiol		Nia James
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	Pennaeth Effeithiolrwydd y Gyllideb	Andrew Charles
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	Dirprwy Gyfarwyddwr, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Gretel Leeb
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	Cyfarwyddwr Llywodraethiant	David Richards
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	Rheolwr Integreiddio Llesiant	Alison Smith
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb	Emma Smith

Cynrychiolwyr y Trydydd Sector

Sefydliad	Enw
Cynghrair Henoed Cymru	Christopher Williams
Cyngor ar Bopeth	Andy Regan
Prifysgol Caerdydd	Dr Alison Parken
Gofal a Thrwsio Cymru	Juliet Morris
Gofalwyr Cymru	Beth Evans
Coed Cymru	Llinos Price
Cynghorau Gwirfoddol Sirol Caerdydd	Mary Duckett
Cynnal Cymru	Rhodri Thomas
Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru	Gethin Rhys
Cyfeillion y Ddaear Cymru	Haf Elgar
Groundwork Gogledd Cymru	Karen Balmer
Groundwork Gogledd Cymru	Debbie Cleverley
Pennaeth Cymorth a Datblygu Asiantaethau	Neil Williams,
Hub Cymru	Julian Rosser
Hub Cymru	Hannah Sheppard
Indy Cube	Ceri Davies
Interlink	Ken Moon
Cadwch Gymru'n Daclus	Jemma Bere
Cadwch Gymru'n Daclus	Lesley Jones
Cadwch Gymru'n Daclus	Louise Tambini
Living Streets	Rachel Maycock
Cymru Un Blaned – Datblygu Un Blaned	David Thorpe
Oxfam Cymru	Hayley Richards
RSPB	Annie Smith
Maint Cymru	Rita Singh
Ymgynghori ar Gynaliadwyedd	Alan Netherwood
Tai Pawb	Martin Jones
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Clare Sain-ley-Berry
CGGC – Prosiect Llywodraeth Agored	Jetske Germing
Cyswllt Amgylchedd Cymru	Liz Smith
Sefydliad y Merched	Rhian Connick
Sefydliad y Merched	Sarah Thomas
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru	Rachel Sharp

WWF Cymru	Anne Meikle
WWF Cymru	Alec Taylor
WWF Cymru	Alex Phillips
WWF Cymru	Jessica McQuade

Cynrychiolwyr Cyrff Eraill

Marie Brousseau-Nouveau – Arsylwr	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Cyfarwyddwr
Cathy Weatherup	Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Catryn Holzinger - Arsylwr	Swyddfa Archwilio Cymru	Arweinydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol